# Fframwaith 7 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru - Pecyn Cymorth Effaith

## Tabl cynnwys


Rhestr tablau....3

Tabl ffigurau....4

1. Rhagarweiniad....5

1.1. Nodyn ar ddiffiniadau....6

2. Methodoleg yr adolygiad llenyddiaeth....6

3. Canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth....8

3.1. Asesiad economaidd/elw (cymdeithasol) ar y buddsoddiad....9

3.1.1. Gwerth amodol....9

3.1.2. Cyfatebiaethau'r farchnad breifat....10

3.1.3. Costau teithio/hoff ddewis a ddatgelwyd....11

3.1.4. Effaith economaidd anuniongyrchol....11

3.2. Arolygon defnyddwyr....11

3.3. Arsylwi/ Astudiaethau Achos....13

3.4. Modelau rhesymeg/theori newid....14

3.5. Dadansoddiad eilaidd o ddata....15

3.6. Crynodeb o fanteision ac anfanteision methodolegau a fabwysiedir yn gyffredin....15

3.7. Themâu effaith....17

3.8. Eiriolaeth....18

4. Dylunio pecyn cymorth effaith i Gymru....19

4.1. Effaith a SLICC....19

4.2. Themâu a awgrymir ar gyfer y pecyn cymorth....22

4.3. Dulliau asesu effaith....23

4.3.1. Arolwg effaith ar gwsmeriaid....23

4.3.2. Dadansoddi data....28

4.3.3. Mesurau gwasanaeth cymaradwy....28

4.4. Cyflwyno data....30

4.4.1. Arolwg effaith....30

4.4.2. Nodiadau ychwanegol ar gyflwyno data....33

4.5. Adfyfyrdodau ar y broses beilot....34

5. Camau nesaf a datblygiadau at y dyfodol....35

Atodiad A: Rhestr o'r adnoddau a adolygwyd....37

Atodiad B: Holiaduron Cwsmeriaid .......................................................................... 42
Atodiad C: Canllawiau dadansoddi data ....................................................................... 47
Atodiad D: Mapio yn erbyn blaenoriaethau strategol ........................................................... 50
Atodiad E: Graffig enghreifftiol o effaith gyffredinol ........................................................ 59
Atodiad F: Ffordd arall o gyflwyno'r enghraifft o effaith gyffredinol ........................................ 60
Atodiad G: Graffig enghreifftiol o effaith y thema lles ...................................................... 61
Atodiad H: Graffig enghreifftiol o effaith y thema dysgu ..................................................... 62

# Rhestr tablau

Tabl 1: Termau cychwynnol y chwiliwyd amdanynt ................................................ 6

Tabl 2: Dosbarthiad daearyddol y fframweithiau/pecynnau cymorth a nodwyd ...... 8

Tabl 3: Methodolegau a ddefnyddiwyd yn y pecynnau cymorth/fframweithiau a adolygwyd n=44)............................................................................... 9

Tabl 4: Manteision ac anfanteision y methodolegau a adolygwyd yn y pecynnau cymorth/fframweithiau a adolygwyd ......................................................... 15

Tabl 5: Diffiniadau allweddol.............................................................................. 20

Tabl 6: Fframwaith arolwg drafft (oedolion)........................................................... 25

Tabl 7: Fframwaith arolwg drafft (plant a phobl ifanc)............................................ 27

Tabl 8: Alffa Cronbach ar gyfer data'r cynllun peilot.............................................. 34

# Tabl ffigurau

Ffigur 1: Themâu cyffredin mewn pecynnau cymorth strategol .......................... 18

Ffigur 2: Model rhesymeg yn dangos mewnbynnau, allbynnau ac effeithiau ..... 21

Ffigur 3: Melin wynt effaith ......................................................................... 31

Ffigur 4: Enghraifft o ddiemwnt sy’n dangos effaith ........................................... 32

# 1. Rhagarweiniad

Dechreuodd adolygiad o Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC) yn 2024. Arweiniodd hyn at ddatblygu Fframwaith 7 (Ff7) a chreu teclyn casglu data newydd i symleiddio'r dull o ddadansoddi a chasglu data SLICC. Mae Fframwaith 7 SLICC yn canolbwyntio'n bennaf ar ddata meintiol. Yn rhan o'r adolygiad hwn, nododd Llywodraeth Cymru a'r sector llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru fel ei gilydd angen i ddatblygu a gwella'r dull o ddangos gwerth ac effaith ehangach gweithgareddau gwasanaethau llyfrgell yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys casglu mwy o ddata ansoddol; gwella'r ffordd o gyflwyno'r data sydd ar gael; archwilio'r posibiliadau ar gyfer lledaenu allbynnau data'n ehangach; a dadansoddi ymhellach y data sydd ar gael i ddangos tystiolaeth o effaith gwasanaethau llyfrgell.

O ganlyniad, comisiynwyd Evidence to Action Ltd ym mis Mawrth 2025 gan Lywodraeth Cymru i gynnal prosiect i lywio datblygiad pecyn cymorth wedi'i seilio ar dystiolaeth ar effaith llyfrgelloedd i rychwantu cyfnod Ff7 SLICC. Ceisiodd y prosiect adolygu enghreifftiau o becynnau cymorth a fframweithiau eraill a datblygu dull a oedd yn gymesur ac yn gyflawnadwy o fewn terfynau amser disgwyliedig, capasiti a chyllidebau disgwyliedig.

Nodau'r ymchwil oedd:

- cynnal adolygiad o arfer gorau rhyngwladol ar gyfer dangos effaith llyfrgelloedd
- datblygu pecyn cymorth wedi'i seilio ar dystiolaeth ar effaith llyfrgelloedd ar gyfer cyfnod Fframwaith 7 SLICC
- dylunio a chynhyrchu unrhyw declynnau ymchwil angenrheidiol i roi'r pecyn cymorth arfaethedig ar effaith ar waith

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r broses yr aed drwyddi i ddatblygu'r Pecyn Cymorth ac argymhellion ar gyfer dylunio'r Pecyn Cymorth, gan gynnwys casglu a dadansoddi data. Gan dynnu ar adolygiad llenyddiaeth, ynghyd â dadansoddiad o ofynion Fframwaith 7 SLICC, mae'n disgrifio'r gwaith a gynhaliwyd i ddatblygu pecyn cymorth sy'n dangos orau ddeilliannau ac effaith gwasanaethau llyfrgell Cymru yn ystod cyfnod Fframwaith 7 SLICC mewn modd priodol a chymesur. Mae hefyd yn cynnwys llwybr i Lywodraeth Cymru ei ystyried ac i symud gweithgareddau ychwanegol a awgrymir yn eu blaen. Y brif gynulleidfa ar gyfer yr adroddiad hwn yw gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru. Mae'r gwasanaethau hyn yn adrodd ffurflenni blynyddol i Lywodraeth Cymru yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC). Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth a'r dull cyffredinol o greu pecyn cymorth o ddiddordeb a defnydd o hyd i wasanaethau llyfrgell eraill.

Dylid nodi bod defnyddio pecyn cymorth ar effaith llyfrgelloedd yn ychwanegiad dewisol i Fframwaith 7 SLICC ac nid yw'n disodli nac yn cymryd lle'r Fframwaith hwnnw. Mae Pecyn Cymorth Effaith SLICC wedi'i gynllunio i gefnogi llyfrgelloedd cyhoeddus sydd am gael arweiniad a chymorth wrth fesur effaith eu gwasanaethau'n well.

### 1.1. Nodyn ar ddiffiniadau

At ddibenion y Pecyn Cymorth, rydym wedi defnyddio'r diffiniad pragmataidd canlynol o effaith wedi'i syntheseiddio o amrywiol ffynonellau a adolygwyd:

*"Dylanwad llyfrgelloedd a'u gwasanaethau ar unigolion a/neu ar gymdeithas. Y gwahaniaeth neu'r newid mewn unigolyn, grŵp neu gymuned o ganlyniad i'r cysylltiad â gwasanaethau llyfrgell. Gallai hyn gynnwys effeithiau sydd yn fwriadol ac yn anfwriadol a allai fod yn gysylltiedig ag amcanion strategol llyfrgell, neu beidio. Gallai effaith gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, newidiadau mewn gwybodaeth, sgiliau, ymddygiad, mynediad, ymgysylltiad cymunedol neu les".*

Dylid nodi nad yw'r termau 'fframwaith' na 'phecyn cymorth' yn cael eu defnyddio mewn modd cyson yn y llenyddiaeth: mae'n bosibl y gallai'r hyn y gellid cyfeirio ato fel fframwaith mewn un achos gael ei alw'n becyn cymorth mewn man arall. Wrth ddisgrifio'r fethodoleg effaith arfaethedig ar gyfer llyfrgelloedd Cymru, rydym yn cyfeirio at becyn cymorth er mwyn a) pwysleisio'i ddefnyddio fel teclyn ymarferol, a b) osgoi dryswch gyda Fframwaith SLICC.

# 2. Methodoleg yr adolygiad llenyddiaeth

Cam cyntaf y prosiect hwn oedd adolygu llenyddiaeth a oedd yn bodoli eisoes ar fframweithiau a phecynnau cymorth perthnasol ar effaith. Wrth ystyried methodoleg yr adolygiad llenyddiaeth, nodwyd er bod gan strategaethau chwilio hynod strwythuredig fantais methodoleg glir y gellir ei hatgynhyrchu, maent yn gallu hepgor deunyddiau perthnasol (e.e. Greenhalgh a Peacock, 2005; Dixon-Woods ac eraill, 2006). Felly, mabwysiadwyd dull hybrid ar gyfer yr adolygiad hwn am fod hyn yn debygol o gynnwys cyfran fawr o lenyddiaeth lwyd (e.e. adroddiadau, papurau gweithiol, gwefannau), nad ydynt o reidrwydd yn cael eu mynegeio neu eu disgrifio mewn modd confensiynol. Am hynny, er y cytunwyd ar dermau chwilio cychwynnol diffiniedig, fel y nodir yn Nhabl 1, cafodd y rhain eu hategu gan ddulliau fel cadwyno cyfeiriadau ac arbenigedd yn y tîm i nodi dogfennaeth berthnasol ychwanegol.

**Tabl 1: Termau cychwynnol y chwiliwyd amdanynt**

| Math o sefydliad | Opsiynau eraill o ran effaith | Math o ddogfen/allbwn |
|---|---|---|
| Llyfrgell | Effaith | Pecyn cymorth* |
| Llyfrgell gyhoeddus | Deilliant* | Fframwaith* |
| Llyfrgell academaidd | Arfarniad | Methodoleg* |
| Llyfrgell iechyd | Asesu | Canllaw/arweiniad |
| Llyfrgell ysgol | Rheoli perfformiad | Teclyn* |
| Llyfrgell arbennig | Gwerth ac effaith | Adnodd* |

| Math o sefydliad | Opsiynau eraill o ran effaith | Math o ddogfen/allbwn |
|---|---|---|
| Amgueddfa* a llyfrgell* | Elw ar fuddsoddiad | Model rhesymeg |
| Sefydliad diwylliannol* | Effaith gymdeithasol (gan gynnwys digidol, iechyd a lles, addysg/sgiliau, llythrennedd ac ati) | Theori newid |
| Sector diwylliannol | Effaith ddiwylliannol | |
| Llyfrgell genedlaethol | Effaith economaidd | |
| Llyfrgell Ymchwil | Effaith gymunedol | |
| | Ansawdd | |
| | Gwerth am Arian | |
| | Eiriolaeth | |

*Hapateb (e.e. i gynnwys deilliant neu ddeilliannau)

Roedd yr adolygiad llenyddiaeth yn cynnwys y DU, ond hefyd enghreifftiau rhyngwladol perthnasol sydd ar gael yn Saesneg. Rhoddwyd blaenoriaeth arbennig i fframweithiau o wledydd sydd naill ai'n debyg i Gymru mewn rhyw ffordd (demograffeg/maint/llywodraethiant) neu sydd â modelau cyflwyno cymaradwy ar gyfer llyfrgelloedd. Roedd y ffocws ar lenyddiaeth a gyhoeddwyd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf (2015-25) er mwyn sicrhau perthnasedd.

Fframweithiau a phecynnau cymorth o'r sector llyfrgelloedd cyhoeddus a gafodd y flaenoriaeth uchaf, ond cafodd fframweithiau a gafodd eu datblygu ar gyfer sectorau llyfrgell eraill (e.e. academaidd, iechyd) eu cynnwys lle roedd hynny'n berthnasol, ac yn arbennig lle maent yn mabwysiadu dulliau nad ydynt wedi'u cynrychioli'n dda o fewn llenyddiaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. Cafodd fframweithiau perthnasol o sectorau cyfagos (e.e. y sector diwylliannol) eu cynnwys hefyd lle roedd y rhain yn cynnig mewnwelediadau nad ydynt ar gael drwy ganolbwyntio ar lyfrgelloedd yn unig.

Rhoddwyd y pecynnau cymorth a'r fframweithiau a nodwyd mewn taenlen, gyda'r wybodaeth ganlynol yn cael ei chofnodi ar gyfer pob eitem: Rhif Adnabod, Teitl, Awdur, Dyddiad, Ffurf (e.e. gwefan, pdf), Dolen (url), Lleoliad daearyddol, Sector/cynulleidfa, Disgrifiad byr o'r fethodoleg, Themâu, Dulliau casglu data, Arweiniad lledaenu, Cryfderau, Gwendidau posibl, Perthnasedd i gyd-destun Cymru, a Nodiadau methodolegol.

At ei gilydd, nodwyd 58 o eitemau. O'u darllen yn agosach, roedd yn amlwg nad oedd 2 eitem, mewn gwirionedd, yn uniongyrchol berthnasol i'r prosiect ac roedd un arall yn dyblygu eitem arall. Roedd rhai o'r 55 eitem a oedd yn weddill yn gysylltiedig â'r un pecyn cymorth neu fframwaith, er enghraifft, rhoi'r un pecyn cymorth ar waith mewn gwahanol

wasanaethau llyfrgell. Roedd hyn yn golygu bod yr eitemau a nodwyd yn gysylltiedig â chyfanswm o 44 pecyn cymorth neu fframwaith unigol.

Roedd 39 o'r cyfanswm o 55 eitem a adolygwyd yn gysylltiedig â llyfrgelloedd cyhoeddus yn benodol a 4 yn gysylltiedig â gwasanaethau llyfrgell yn gyffredinol. Cafodd pecynnau cymorth wedi'u hanelu at wasanaethau llyfrgell ysgolion, llyfrgelloedd academaidd, llyfrgelloedd ymchwil, llyfrgelloedd cenedlaethol, amgueddfeydd a'r sector diwylliannol ehangach eu cynrychioli yn yr adolygiad hefyd. Mae rhestr o'r eitemau a adolygwyd wedi'i chynnwys yn Atodiad A. Mae hyn yn darparu manylion llawn y pecynnau cymorth y cyfeiriwyd atynt yn ôl eu nifer yn y drafodaeth isod.

Mae Tabl 2 yn crynhoi nifer yr eitemau a adolygwyd o bob rhanbarth daearyddol.

**Tabl 2: Dosbarthiad daearyddol y fframweithiau/pecynnau cymorth a nodwyd**

| Gwlad neu ardal ddaearyddol arall | Nifer yr eitemau a nodwyd |
|---|---:|
| **Byd-eang** | 3 |
| **Awstralia** | 4 |
| **Canada** | 15 |
| **Y Weriniaeth Tsiec** | 1 |
| **Denmarc** | 3 |
| **Lloegr** | 7 |
| **Estonia** | 1 |
| **Seland Newydd** | 1 |
| **Yr Alban** | 6 |
| **Ar draws y DU** | 8 |
| **Yr Unol Daleithiau** | 6 |
| **CYFANSWM** | 55 |

# 3. Canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth

Mae Tabl 3 yn crynhoi'r dulliau methodolegol mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd yn y 44 pecyn cymorth a fframwaith unigol a nodwyd.[1]

[1] Noder: Mae'n bosibl bod pecynnau cymorth mewn mwy nag un adran, er enghraifft, os ydynt yn cyfuno methodolegau ansoddol a meintiol.

**Tabl 3: Methodolegau a ddefnyddiwyd yn y pecynnau cymorth/fframweithiau a adolygwyd (n=44)**

| Methodoleg | Nifer y pecynnau cymorth unigol |
|---|---|
| Asesiad economaidd (e.e. SROI (elw cymdeithasol ar y buddsoddiad)) | 16 |
| Data meintiol a gasglwyd gan y llyfrgell (e.e. arolwg defnyddwyr o fath graddfa Likert) | 13 |
| Data meintiol a gasglwyd gan y llyfrgell (e.e. arsylwadau, cwestiynau arolwg ansoddol) | 8 |
| Astudiaethau achos neu ymchwil weithredol | 3 |
| Model rhesymeg/theori newid | 3 |
| Dadansoddiad eilaidd o ddata (e.e. o arolygon cenedlaethol | 3 |
| Meincnodi/hunanasesiad | 2 |
| Ffocws ar eiriolaeth | 3 |
| Dolenni i adnoddau eraill (yn hytrach na methodoleg benodol) | 4 |

Mae'r adran ganlynol yn crynhoi canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth mewn perthynas â'r amrywiol ddulliau a ddisgrifiwyd.

## 3.1. Asesiad economaidd/elw (cymdeithasol) ar y buddsoddiad

At ei gilydd, amrywiol fathau o asesiad effaith economaidd oedd y dull mwyaf cyffredin a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth. Ymhlith y rhai a oedd yn defnyddio rhyw fath o fethodoleg elw ar y buddsoddiad, mae tri dull, yn fras, o fesur gwerth uniongyrchol gwasanaethau llyfrgell.

### 3.1.1. Gwerth amodol

Mae'r dull hwn yn mesur gwerth llyfrgell drwy adolygu parodrwydd damcaniaethol aelodau'r gymuned i dalu (PiD) am wasanaethau llyfrgell (neu weithiau i dderbyn iawndal (PiDd) i ildio'u mynediad atynt). Fel arfer, mae hyn yn golygu cynnal arolwg defnyddwyr ar raddfa fawr (ac weithiau arolwg ymysg pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr). Mae rhai dulliau'n gofyn yn uniongyrchol i ddefnyddwyr faint y byddent yn ei dalu (er enghraifft am adnodd mewn siop lyfrau) pe na bai adnodd ar gael mewn llyfrgell (e.e. #49). Yng nghyd-destun y DU, caiff gwerthoedd amodol eu cyfrifo amlaf drwy gyfeirio at dreth gyngor (e.e. #25). Mae'n syndod

nodi nad yw'r gofal y gellid ei roi i'r senario nad yw llyfrgelloedd yn cael eu cyllido mwyach drwy dreth gyngor mewn arolwg cyhoeddus yn cael llawer o ystyriaeth yn y pecynnau cymorth a adolygwyd. Ochr yn ochr ag ystyriaethau ymarferol cynnal arolwg ar raddfa fawr, byddai angen ystyried goblygiadau gwleidyddol posibl y neges hon.

### 3.1.2. Cyfatebiaethau'r farchnad breifat

Mae'r dull hwn yn mesur gwerth llyfrgelloedd ar sail prisiau'r farchnad ar gyfer yr hyn y tybir sy'n wasanaethau cymaradwy.

Mae'r ffyrdd o gyfrifo 'prisiau'r farchnad' yn amrywio'n sylweddol rhwng y pecynnau cymorth sy'n defnyddio amrywiolyn o ddull cyfatebiaethau'r farchnad breifat. Ar lefel symlach, mae nifer yn ceisio cyfrifo cyfatebiaethau'r farchnad breifat i'r gwasanaethau a gynigir gan lyfrgelloedd. Er enghraifft, mae #18 yn cyfrifo gwerth marchnad adnoddau "ar sail pris cyfartalog gan fanwerthwyr defnyddwyr gyda gostyngiad o 40% wedi'i roi am fod y deunyddiau wedi'u benthyg yn hytrach na'u perchnogi" ac yn defnyddio hyn i bennu manteision fesul deiliaid cerdyn gweithredol, aelwyd, pob awr mae'r gangen ar agor, a phreswylydd. Mae'r pecyn cymorth hwn hefyd yn onest o ran cydnabod nad oes modd "mesur effaith gymdeithasol gofod teg, llythrennedd cynnar na mentrau dysgu gydol oes y llyfrgell [yn y modd hwn]". Mae #23 yn mabwysiadu dull tebyg ac mae'n cynnwys gwerth gweithgareddau llyfrgell fel clybiau darllen yr haf, rhaglenni llythrennedd cynnar, ac ati, gan ddefnyddio cyfatebiaethau'r farchnad ar sail cost gyfartalog opsiynau amgen a gynigir gan y sector preifat.

Fodd bynnag, yn hytrach na thynnu cymariaethau uniongyrchol rhwng y sector preifat a gwasanaethau a gynigir gan lyfrgelloedd, mae rhai fframweithiau'n ceisio cyfrifo gwerth y farchnad ar gyfer deilliannau tymor hwy y tybir y gallai'r gwasanaeth llyfrgell eu darparu. Er bod y dull hwn yn ymwneud yn fwy uniongyrchol ag effaith gwasanaethau llyfrgell, mae'r pecynnau cymorth a adolygwyd yn gwneud honiadau eithaf eithafol am yr hyn y gellid tybio ei fod yn gyfwerth ar gyfer darpariaeth llyfrgell. Er enghraifft, mae #7 yn cymharu manteision posibl mynd i glwb Lego llyfrgell â chost mynd i amgueddfa ryngweithiol mewn rhan arall o'r wlad a chost llogi diddanwr i blant, sef cymariaethau y gellid bwrw cryn amheuaeth drostynt. Mae'r sail ar gyfer cymariaethau o'r fath nid yn unig yn destun her ar lefel synnwyr cyffredin, ond mae'r data sy'n cael ei ddefnyddio i ategu'r honiadau hyn yn aml yn wan, er enghraifft, ac wedi'u seilio ar sampl fach neu anghynrychioliadol. Yn achos #8, er enghraifft, mae honiadau'n gysylltiedig ag effaith y gwasanaeth llyfrgell ar y boblogaeth leol wedi'u seilio ar ganlyniadau arolwg o 88 yn unig o gwsmeriaid llyfrgell, yr oedd 83% ohonynt yn 55 oed ac yn hŷn.

Mewn rhai achosion, mae materion moesegol i'w hystyried hefyd, er enghraifft, mae #8 yn honni bod un 'achos o oedi hunanladdiad' y flwyddyn o ganlyniad i gymryd rhan mewn grŵp darllen/ysgrifennu creadigol a chaiff gwerth yr 'oedi' hwn ei gyfrifo o ran 'blynyddoedd coll o weithgarwch cynhyrchiol'. Mae cwestiynau amlwg ynghylch a yw hyn yn ffordd briodol o roi gwerth ar fywyd rhywun, yn ogystal ag a ellid ystyried mai'r grŵp darllen yw'r unig beth sy'n gyfrifol am hyn, wrth gwrs. Fel ystyriaeth fwy cyffredinol, mae hefyd yn werth nodi bod seilio cyfrifiadau ar 'gynhyrchiant' unigol yn anochel o bwysoli gwerth gwasanaethau wedi'u targedu at y rheiny sydd â'r mwyaf o 'flynyddoedd cynhyrchiol' i elwa o bosibl.

### 3.1.3. Costau teithio/hoff ddewis a ddatgelwyd

Mae'r dull hwn yn dadlau mai o amser, arian ac ymdrech defnyddwyr i wneud defnydd o'r gwasanaethau hyn y mae gwerth gwasanaethau llyfrgell yn tarddu. Mae'n tybio bod yn rhaid i'r gwerth y mae defnyddwyr yn ei gael wrthbwyso'r costau a ddaw i'w rhan, neu fel arall ni fyddai defnyddwyr yn trafferthu i ymweld. Fodd bynnag, mae hyn yn awgrymu bod sail ariannol bob amser i benderfyniadau ynghylch defnyddio'r llyfrgell. Mae #52 a #57 yn enghreifftiau o'r dull hwn sy'n cael ei ddefnyddio'n llai aml yn y sector llyfrgelloedd.

### 3.1.4. Effaith economaidd anuniongyrchol

Mae nifer o becynnau cymorth yn ceisio cyfrifo gwerth anuniongyrchol gwasanaethau llyfrgell, fel cyflogaeth llyfrgelloedd; llyfrgelloedd yn prynu nwyddau a gwasanaethau yn yr economi leol; gwerth gwariant defnyddwyr yn y ardal leol (siopau, caffis, ac ati) yn ystod ymweliadau â'r llyfrgell; a manteision llyfrgelloedd i bobl nad ydynt yn eu defnyddio. Mewn rhai achosion, nid yw'r dull a fabwysiadwyd yn cael ei esbonio'n glir yn y deunyddiau sydd ar gael. Mewn achosion eraill, caiff y broses ei hesbonio ond mae'n dibynnu ar gyflwyno gwerthoedd (er enghaifft, ffigurau cyflogau), y byddai'n rhaid eu pennu ar gyfer cyd-destun Cymru. Yn #54, mae rhywfaint o ddata perthnasol yr ystyrir ei fod yn cynrychioli Cymru, ond mae hyn yn ymwneud â darpariaeth amgueddfeydd ac mae llai o berthnasedd i fesurau fel yr effaith economaidd a gaiff ymwelwyr dros nos ar gyfer y rhan fwyaf o lyfrgelloedd.

Ar gyfer pob math o werthusiad economaidd, mae angen ystyried, wrth gwrs, bod angen i ffigurau gael eu hadolygu a'u diweddaru'n gyson. Po fwyaf cymhleth y broses o gyfrifo ffigurau, y mwyaf mae hyn yn troi'n rhwystr i lyfrgelloedd ddefnyddio'r dull hwn yn barhaus.

## 3.2. Arolygon defnyddwyr

Mae arolygon defnyddwyr yn ffordd gyffredin arall o asesu effaith yn y pecynnau cymorth a adolygwyd. Mae rhai arolygon defnyddwyr wedi'u seilio ar gwestiynau meintiol (e.e. gan ddefnyddio graddfa Likert) a dadansoddi data, tra bod eraill yn cyfuno adborth ansoddol a meintiol gan ddefnyddwyr. Mae sawl gwasanaeth llyfrgell yn defnyddio'r fframwaith canfyddiadau defnyddwyr a ddyfeisiwyd gan Seismonaut (#2, #3, #4, #17, #20) ac a seiliwyd ar y Prosiect Gwerth Diwylliannol a gyllidwyd gan AHRC. Caiff canlyniadau'r arolwg defnyddwyr hwn ei gyflwyno fel 'Cwmpawd Effaith' sy'n cynnwys 12 paramedr effaith wedi'u dosbarthu ar draws pedwar dimensiwn. Mae'r fethodoleg hon yn gofyn cwestiynau i ddefnyddwyr am eu canfyddiadau o'r gwasanaeth llyfrgell o dan y dimensiynau canlynol: 1. Hafan neu Effaith Emosiynol (I ba raddau mae'r llyfrgell (casgliad, digwyddiadau, cyfleusterau ffisegol, arweiniad staff) yn creu lles; yn sbarduno emosiynau; ac yn creu cyfle i ymgolli a chanolbwyntio) 2. Persbectif neu Effaith Ddeallusol (I ba raddau mae'r llyfrgell yn symbylu adfyfyrio neu'n darparu rhywbeth i gnoi cil arno; yn ymestyn gorwelion drwy wybodaeth newydd; ac yn helpu i wella sgiliau meddwl yn feirniadol) 3. Creadigrwydd neu Effaith Greadigol (I ba raddau mae'r llyfrgell yn symbylu'r dychymyg; yn cryfhau neu'n datblygu sgiliau; ac yn darparu cymhelliant i roi cynnig ar rywbeth newydd neu wneud rhywbeth newydd) 4. Cymuned neu Effaith Gymunedol (I ba raddau mae'r llyfrgell yn symbylu sgyrsiau; yn creu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd; ac yn darparu mewnwelediad i fywydau pobl eraill).

Mae #2 yn defnyddio arolwg holiadur cenedlaethol a gynhaliwyd ymysg sampl gynrychioliadol o oddeutu 1,500 o ddinasyddion oedolion Denmarc. Cynhaliodd #17/#20 arolwg ymysg 2,800 o gwsmeriaid llyfrgell. Mae trefnu a dadansoddi arolwg o'r fath (yn arbennig arolwg sy'n gynrychioliadol yn genedlaethol) yn amlwg yn gamp sylweddol sy'n mynnu amser ac adnoddau, yn ogystal ag ewyllys gwleidyddol. Un o anfanteision y dull hwn yw nad yw lleisiau pobl ifanc o dan 16 oed yn cael eu clywed yn uniongyrchol. Hefyd, mae'n bosibl bod geiriad rhai o'r datganiadau y mae gofyn i ddefnyddwyr gynnig sylwadau arnynt yn anodd i bob defnyddiwr sy'n oedolyn uniaethu ag ef neu ei ddeall yn hawdd[2]. Mae hefyd yn werth nodi bod y dull hwn yn ymwneud â chanfyddiadau defnyddwyr yn unig. Ar wahân i nifer o arsylwadau a chyfweliadau a gynhaliwyd mewn dwy lyfrgell, ni ddefnyddir unrhyw ddata o ffynonellau eraill i drionglu data'r arolwg[3].

Yn y dull hwn (ynghyd â nifer o arolygon eraill a adolygwyd), gofynnir i ddefnyddwyr am wahanol elfennau o'r gwasanaeth llyfrgell (e.e. casgliadau, arweiniad staff). Mae cwestiwn i'w ystyried ynghylch pa mor berthnasol mae'r rhaniadau hyn o ran profiadau defnyddwyr o effaith. Er enghraifft, os mai dim ond gydag arweiniad staff y gellid defnyddio’r casgliadau, bydd goblygiadau i hynny; yn yr un modd, os yw'r cyfleusterau ffisegol yn ei gwneud yn anodd i rai defnyddwyr gael mynediad at gasgliadau, bydd yn effeithio ar eu heffaith.

Mae #11 yn dangos dull arall sy'n defnyddio arolwg defnyddwyr oedolion, ond mae wedi'i gyfyngu i gwestiynau gweddol safonol am fodlonrwydd cwsmeriaid (e.e. ar gyfer gwasanaethau digidol: "Rwy'n gwybod pa wasanaethau digidol mae Llyfrgelloedd Suffolk yn eu cynnig; Rwy'n ei chael yn hawdd cael mynediad at y gwasanaethau digidol; Rwy'n mwynhau defnyddio'r gwasanaethau digidol'). Mae'r pecyn cymorth hwn yn mynd i'r afael ag effaith, ond dim ond drwy ddisgrifiad cyffredinol a dolenni at adnoddau eraill.

Mae #10 yn darparu banc cwestiynau o gwestiynau caeëdig (o fath graddfa Likert) ac agored o dan amrywiol feysydd deilliant. Ymhlith yr enghreifftiau o'r maes 'cyfoethogi profiadau dysgu' mae: 'Gwnes i roi cynnig ar rywbeth newydd'; 'Ces i fy synnu gan rywbeth a ddysgais'; a 'Dysgais i rywbeth o'r profiad hwn na fyddwn i wedi'i ddysgu fel arall'. Mae disgwyl i sefydliadau ddethol cwestiynau o'r banc cwestiynau hwn er mwyn ddysgu am ganfyddiad defnyddwyr o'u gwasanaethau. Mae hyn yn golygu y gellir addasu holiaduron i ateb anghenion lleol, ond byddai angen cytuno ar set safonol o gwestiynau er mwyn agregu canlyniadau ar lefel genedlaethol.

Mae #48 yn arolwg canfyddiadau defnyddwyr arall gyda chyfres o declynnau gan gynnwys templedi dylunio arolwg a phlatfform digidol i gasglu data ac adrodd canlyniadau. Mae'r fethodoleg hon yn caniatáu i wasanaethau llyfrgell ddangos newidiadau mewn canfyddiadau defnyddwyr a'u defnydd o lyfrgelloedd o flwyddyn i flwyddyn, yn ogystal â hwyluso meincnodi rhwng llyfrgelloedd. Nodwedd arall o'r fframwaith hwn yw ei gysylltiad at strategaethau cenedlaethol (yn Awstralia, yn yr achos hwn). Fodd bynnag, unwaith eto, dim ond defnyddwyr sy'n oedolion sy'n cymryd rhan yn yr arolwg.

---

[2] Mae'n bosibl bod cyfieithu datganiadau o'r Ddaneg yn effeithio ar hyn.

[3] Er enghraifft, gallai rhywun gredu bod y llyfrgell wedi gwella'u sgiliau meddwl yn feirniadol, ond mae'n bosibl na fyddai asesiad mwy gwrthrychol yn canfod bod hyn yn wir.

Mae'r cwestiynau a awgrymir ar gyfer arolwg defnyddwyr yn #26 wedi'u cysylltu'n fwy pendant ag effaith neu 'ddangosyddion deilliant'. Yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar ganfyddiadau defnyddwyr o wasanaeth llyfrgell, mae rhai o'r cwestiynau'n ymwneud â chamau pendant (e.e. 'Gwnaethoch chi baratoi *resumé* neu ymgeisio am swydd gan ddefnyddio cyfrifiaduron y llyfrgell'). Gall llyfrgelloedd ddewis sut i fesur deilliannau (h.y. pa gwestiynau arolwg i'w gofyn), gan wneud y dull hwn yn anodd ei ymestyn ar raddfa fwy i ddarparu data cenedlaethol heb gytundeb ar y cwestiynau. Yn ogystal, mae'n werth nodi nad yw'r mathau hyn o gwestiynau caeëdig yn casglu deilliannau annisgwyl o bosibl.

Mae #29 yn ystyried effeithiau uniongyrchol a hirdymor fel ei gilydd. Mae arolygon uniongyrchol yn mesur newidiadau o ran gwybodaeth, hyder, ymwybyddiaeth ac ymddygiad (h.y. y bwriad i roi'r tair elfen flaenorol ar waith). Bwriedir i arolygon dilynol ddeall a yw defnyddwyr wedi newid eu hymddygiad neu wedi parhau i elwa o ganlyniad i'r rhaglen neu'r gwasanaeth. Nodwedd nodedig arall o'r dull hwn yw'r arlwy o gwestiynau cyffredin y caiff llyfrgelloedd ddewis eitemau ychwanegol neu gwestiynau penagored o'u plith. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o addasu lleol tra'n darparu data cymaradwy ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, fel llawer o'r arolygon a adolygwyd, mae lleisiau plant a phobl ifanc wedi'u hepgor o'r dull hwn. Mae ymarferoldeb cysylltu â defnyddwyr i gwblhau arolygon dilynol yn ystyriaeth ymarferol bwysig.

Mae #58 yn mabwysiadu fframwaith tebyg i #29, gan holi cwsmeriaid am y dysgu (sgiliau), gwybodaeth, hyder a newidiadau golygwedd a gânt o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau llyfrgell. Mae'r datganiadau yn yr arolwg defnyddwyr yn gysylltiedig â deilliannau strategol. Yn y dull hwn, fodd bynnag, nid oes unrhyw arolygon dilynol.

Ystyriwyd sawl dull arall o ran arolwg defnyddwyr, ond cyfyngedig yw perthnasedd y rhain i lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru. Er enghraifft, mae #45 yn defnyddio Sgor Hyrwyddwr Net (NPS) i fesur teyrngarwch a bodlonrwydd (canfyddiadau o ansawdd) ymysg defnyddwyr llyfrgell ymchwil, ac mae #46 yn arolwg o berchnogion busnesau am effeithiau defnyddio gwasanaeth busnes arbenigol.

## 3.3. Arsylwi/ Astudiaethau Achos

Mae sawl pecyn cymorth sy'n dibynnu'n bennaf ar fesurau meintiol yn ategu'r data hyn gydag astudiaethau achos. Yn y rhan fwyaf o achosion, darperir llai o fanylion am y dulliau a ddefnyddir ar gyfer astudiaethau achos o gymharu â'r dulliau meintiol. Mae #2 a #3 yn ategu arolwg defnyddwyr gydag arsylwadau a chyfweliadau. Mae #8 yn casglu data drwy ymweliadau â llyfrgelloedd, cyfweliadau gyda staff ac adolygiadau dogfennau i gynhyrchu astudiaethau achos o wahanol lyfrgelloedd o dan set o themâu cyffredin.

Mae #30 yn cynnal astudiaethau achos gan ddefnyddio ymchwil gefndirol ac ymweliadau safle. Fodd bynnag, mae'r fframwaith hwn yn dilyn dull mwy meintiol at astudiaethau achos. Ar gyfer pob sefydliad, cynhelir dadansoddiad mewnbwn-allbwn economaidd er mwyn amcangyfrif sut mae refeniw a gwariant y sefydliad yn cylchdroi drwy'r economi leol. Yn ogystal, caiff map rhwydwaith ei ddatblygu i gynrychioli sut mae pob sefydliad yn gysylltiedig â sefydliadau yn eu cymuned.

Mae nifer bach o becynnau cymorth yn canolbwyntio ar ddulliau ethnograffig. Mae #39 yn disgrifio dull sydd wedi'i ddyluio i gasglu storïau a deilliannau ansoddol dros amser mewn system ystyrlon a threfnus. Mae'r teclyn yn caniatáu i staff gofnodi nodiadau, fideos, lluniau, ac ati, yn rhan o arsylwad. Mae'n caniatáu i arsylwadau gael eu strwythuro yn unol â thempledig a ragddyluniwyd, a gall yr arsylwr gysylltu eu cofnod â themâu a ragbennwyd. Gallai hyn, o bosibl, helpu i gyflwyno golwg mwy cyfannol o'r llyfrgell a hwyluso casglu data astudiaethau achos mewn gwahanol gyfryngau drwy gydol y flwyddyn. Gallai darparu fframwaith arsylwi cyson hefyd hwyluso ymestyn ar raddfa o lefel leol i lefel genedlaethol.

Mae elfennau tebyg i'r dull hwn yn #57 ond system gofnodi ymarferol yw hi. Felly, nid yw'n casglu gweithgareddau effaith mewn gwahanol gyfryngau, ac mae angen i sylwadau a ddarperir gan gwsmeriaid neu staff gael eu cofnodi a'u codio'n ymarferol wedi hyn. Mae system gofnodi ddigidol gan #58 ar gyfer storïau effaith, ond mae hyn yn gyfyngedig i adroddiadau ysgrifenedig gan staff.

## 3.4. Modelau rhesymeg/theori newid

Er bod gwahaniaethau rhwng modelau rhesymeg a theorïau newid, maent yn cael eu hystyried gyda'i gilydd at ddibenion yr adolygiad hwn oherwydd a) eu bod yn gymharol brin o ran eu nifer, a b) am fod y termau'n cael eu defnyddio'n aml yn gyfnewidiol mewn cyd-destunau ymarferol.

Mae #13-15 yn cyflwyno model rhesymeg wedi'i ddylunio ar gyfer llyfrgelloedd ymchwil, gan amlinellu Mewnbynnau (Yr hyn rydyn ni'n ei fuddsoddi); Allbynnau (Gweithgareddau - Yr hyn rydyn ni'n ei wneud a Chyfranogiad - Pwy rydyn ni'n eu cyrraedd); a Deilliannau ac Effaith wedi'u rhannu'n (a) canlyniadau byrdymor - dysgu, b) Canlyniadau tymor canolig - gweithredu; ac c) Canlyniadau hirdymor - amodau. Mae'r model hwn yn disgrifio graddiant "mesurau i fewnwelediadau" sy'n nodi symud o fesurau meintiol, sy'n cael eu defnyddio'n nodweddiadol ar gyfer y colofnau mewnbynnau ac allbynnau, tuag at ddulliau ansoddol neu ddehongliadol, sy'n cael eu defnyddio'n aml i ddogfennu deilliannau ac effaith. Er bod y fframwaith hwn yn ddiddorol o safbwynt cysyniadol, nid yw'n trafod sut gellid casglu tystiolaeth. Yn ychwanegol, byddai angen ei addasu i gyd-destun llyfrgell gyhoeddus.

Mae #44 yn mabwysiadu dull model rhesymeg, ond er iddo restru gweithgareddau ac allbynnau llyfrgelloedd, nid yw'r rhain wedi'u cysylltu'n amlwg â deilliannau penodol. Yn ogystal, nid yw'r deilliannau sydd wedi'u cynnwys wedi'u diffinio'n glir (e.e. sut olwg sydd ar brofiad cadarnhaol o'r llyfrgell?) a phrin yw'r esboniad ynghylch sut gallai deillianau byrdymor ddod yn ddeilliannau tymor canolig, ac ati.

Mae #40 yn cyflwyno model theori newid ar gyfer gwasanaethau llyfrgell ysgolion. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r erthygl, roedd yn ei gamau datblygu cynnar a chyfyngedig oedd y profi. Er nad yw'n theori newid, mae #34 yn cynnwys crynodeb o lenyddiaeth sy'n gallu helpu i ddangos effaith llyfrgell mewn nifer o feysydd. Gallai'r math hwn o adnodd helpu i ddarparu tystiolaeth o'r cysylltiadau rhwng mewnbynnau, allbynnau ac effaith wedi'u cyflwyno mewn model rhesymeg.

## 3.5. Dadansoddiad eilaidd o ddata

Mae'r dulliau asesu economaidd/Elw ar Fuddsoddiad a ddisgrifir uchod yn aml yn defnyddio data sydd eisoes yn cael ei gasglu gan wasanaethau llyfrgell, adrannau'r llywodraeth a sefydliadau eraill (e.e. data cyflogaeth, data cymharu'r farchnad). Fodd bynnag, y tu hwnt i hyn, mae ambell i becyn cymorth yn defnyddio setiau data sydd eisoes yn bodoli mewn ffyrdd eraill. Mae #30 yn defnyddio data PLS (Arolwg Llyfrgelloedd Cyhoeddus) i amcangyfrif mesur unigol ar gyfer presenoldeb a defnydd o lyfrgelloedd ar amrywiol raddfeydd daearyddol. Dangosir hyn fel map sy'n dangos dosbarthiad degraddau presenoldeb llyfrgelloedd (h.y. lefelau isel i uchel o bresenoldeb a defnydd o lyfrgelloedd). Ar gyfer pob mynegai (thema), caiff newidynnau perthnasol a geir o ddata arolygon allanol (e.e. yn ymwneud ag incwm, cyfranogiad yn y llafurlu, cyrhaeddiad addysgol, ac ati) eu llwytho i ddadansoddiad ffactor ac yna'u trosi i sgôr mynegai safonedig ar gyfer siroedd unigol. Yna cynhelir dadansoddiadau o amrywiol elfennau er mwyn deall yn well y cysylltiadau rhwng y Mynegeion Amgueddfa a Llyfrgell, a dimensiynau lles cymdeithasol. Er eu bod yn gadarn yn academaidd, mae'r dull hwn yn cymryd cryn amser, adnodd ac arbenigedd, yn ogystal ag argaeledd y data angenrheidiol o arolygon sy'n bodoli eisoes. Mae hefyd yn werth nodi, yn yr astudiaeth hon, na chynhyrchodd y dull dystiolaeth o gysylltiadau cadarn rhwng presenoldeb a defnydd o lyfrgelloedd a lles cymdeithasol.

Mae #28 yn mabwysiadu dull ymchwil weithredol gyda ffocws ar ddata sydd eisoes yn cael ei gasglu gan lyfrgelloedd. Mae'r ddogfen a adolygwyd yn cyflwyno dull eang y byddai angen ei addasu i gyd-fynd ag amgylchiadau lleol yn rhywle arall. Byddai hyn yn ei gwneud yn anodd cynyddu'r raddfa ar gyfer y dull hwn i lefel genedlaethol mewn modd cyson.

## 3.6. Crynodeb o fanteision ac anfanteision methodolegau a fabwysiedir yn gyffredin

Mae Tabl 4 yn crynhoi rhai o fanteision a heriau posibl y methodolegau a gaiff eu hadrodd fynychaf yn y pecynnau cymorth a adolygwyd.

**Tabl 4: Manteision ac anfanteision y methodolegau a adolygwyd yn y pecynnau cymorth/fframweithiau a adolygwyd**

| Methodoleg | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| **Asesiad economaidd/ROI (elw ar y buddsoddiad/SROI (elw cymdeithasol ar y buddsoddiad)** | • Gallu darparu cynrychiolaeth ar unwaith, yn aml ar ffurf weledol, o effaith llyfrgelloedd.<br>• O bosibl yn defnyddio rhywfaint o'r data meintiol sydd eisoes yn cael ei gasglu drwy SLICC. | • Mae'n anodd (os nad yn amhosibl) cofnodi holl effaith llyfrgelloedd ar ffurf ariannol.<br>• Angen diweddaru'r gwerthoedd yn rheolaidd.<br>• Dibynnu ar fynediad at ddata (yn aml o |

| Methodoleg | Manteision | Anfanteision |
| --- | --- | --- |
| **Asesiad economaidd/ROI (elw ar y buddsoddiad/SROI (elw cymdeithasol ar y buddsoddiad) (parhad)** | | ffynonellau sydd y tu hwnt i'r gwasanaeth llyfrgell).<br>• Angen arolygon ar raddfa fawr o bosibl.<br>• Byddai angen mewnbwn arbenigol ar gyfer methodolegau mwy cymhleth.<br>• Gall cyfatebiaethau'r farchnad ymddangos yn afrealistig.<br>• Gallai fod goblygiadau gwleidyddol i ddulliau Gwerth Amodol (e.e. pryder am doriadau i lyfrgelloedd a/neu godiadau i dreth gyngor). |
| **Arolygon defnyddwyr** | • Casglu canfyddiadau defnyddwyr ac adborth a allai ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.<br>• Gallu casglu data o niferoedd mawr o ddefnyddwyr llyfrgell.<br>• Gallu eu haddasu yn ôl anghenion lleol yn ogystal â chasglu data cenedlaethol cymaradwy. | • Byddai dylunio, gweithredu a dadansoddi arolwg cenedlaethol (cynrychioliadol) yn mynnu amser ac adnoddau.<br>• Mae methodolegau arolygon presennol yn annhebygol o fapio'n agos yn erbyn blaenoriaethau Cymru.<br>• Mae rhai arolygon yn casglu canfyddiadau defnyddwyr yn unig (er bod y rhain yn werthfawr, byddai'n fanteisiol iddynt driongli gyda data arall). |


| Methodoleg | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| **Arolygon defnyddwyr (parhad)** | | • Ychydig arolygon sy'n casglu lleisiau plant a phobl ifanc.<br>• Gall fod yn anodd amseru arolygon i gasglu effaith (e.e. dod o hyd i bobl i gwblhau arolygon dilynol am effeithiau mwy hirdymor). |
| **Arsylwi/Astudiaethau Achos** | • Gellid cynyddu'r raddfa o lefel leol i lefel genedlaethol o weithredu dull cofnodi cyson.<br>• Gallai fod o gymorth ar gyfer rhannu storïau llwyddiant / eiriolaeth. | • Ychydig enghreifftiau sydd i dynnu arnynt o'r llenyddiaeth a ble maent yn cael eu defnyddio, nid yw'r methodolegau'n cael eu disgrifio'n dda yn aml.<br>• Anawsterau posibl wrth gynyddu'r raddfa o lefel leol i lefel genedlaethol.<br>• Gall casglu a dadansoddi fod yn llafurus o ran amser. |
| **Dadansoddiad eilaidd o ddata** | • Defnyddio data sydd eisoes yn bodoli.<br>• Gellid tynnu ar ddata o ffynonellau sy'n uchel eu parch, gan gynnwys arolygon cenedlaethol cynrychioliadol. | • Dibynnu ar y data sydd ar gael.<br>• Ddim o reidrwydd yn darparu tystiolaeth o effaith llyfrgelloedd. |

## 3.7. Themâu effaith

Mae llyfrgelloedd cyhoeddus yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n cynhyrchu deilliannau buddiol i'w haelodau mewn ystod eang o ffyrdd. Mewn fframweithiau neu becynnau cymorth effaith, caiff y rhain eu categoreiddio'n aml mewn nifer o 'themâu effaith'. Gall hyn fod o gymorth wrth gyflwyno data i amrywiol gynulleidfaoedd, yn ogystal â helpu llyfrgelloedd i ddeall yn well ystod yr effeithiau mae eu gwasanaeth yn eu darparu. Am fod themâu effaith yn gallu amrywio rhwng sectorau llyfrgell gwahanol (e.e. academaidd, iechyd), dim ond pecynnau cymorth sy'n gysylltiedig â llyfrgelloedd cyhoeddus, neu sydd wedi'u bwriadu i gynnwys pob math o lyfrgell, sy'n cael eu hystyried yn yr adran hon.

Er bod rhai o'r pecynnau cymorth a adolygwyd yn gwerthuso effaith y llyfrgell fel uned gyfannol unigol, mae'r mwyafrif yn archwilio effaith o dan nifer o themâu penodol. Mae'r ffyrdd o drefnu'r themâu effaith hyn yn amrywio'n sylweddol. Mewn rhai achosion, maent yn gysylltiedig ag agweddau ar y gwasanaeth llyfrgell, fel benthyca, darparu gwybodaeth, darparu lle, darpariaeth TG, digwyddiadau ac ati. Fodd bynnag, mewn modelau eraill, caiff effaith llyfrgell ei hystyried o dan gysyniadau ehangach, yn nodweddiadol yn gysylltiedig â datblygu gwasanaethau'n strategol.

Mae'r nifer a'r dewis o themâu yn amrywio'n eang. Roedd nifer y themâu yn y pecynnau cymorth a adolygwyd yn amrywio o 3 i 12. Mae Ffigur 1 yn dangos y themâu mwyaf cyffredin yn y pecynnau cymorth hynny a fabwysiadodd ddull a oedd yn alinio'n fwy â strategaeth (yn hytrach na chanolbwyntio ar y llyfrgell). Fel mae hyn yn ei ddangos, ymhlith y themâu mwyaf cyffredin roedd: lles, iechyd, datblygu economaidd, llythrennedd, ymgysylltiad cymunedol, addysg, ymgysylltiad dinesig, dysgu gydol oes a chynhwysiant digidol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod themâu hefyd nad ydynt i weld mor bwysig ar y cwmwl geiriau hwn am fod termau ychydig yn wahanol yn cael eu defnyddio mewn amrywiol fframweithiau. Yn arbennig, nid yw'r gair diwylliant yn ymddangos mor amlwg ag y gallai am fod pecynnau cymorth wedi cyfeirio at hyn mewn ffyrdd amrywiol o ran gwerth diwylliannol, gallu diwylliannol, cyfraniad diwylliannol, cyfoethogi diwylliannol a lles diwylliannol.




Ffigur 1. Themâu cyffredin mewn pecynnau cymorth strategol

Mae hefyd yn werth nodi bod themâu, mewn rhai achosion, wedi'u cysylltu'n annatod â'r dulliau casglu a dadansoddi data a fabwysiadwyd mewn pecynnau cymorth. Yn arbennig, roedd datblygu economaidd neu effaith economaidd yn ymddangos mewn pecynnau cymorth a fabwysiadodd ddull asesu economaidd (e.e. SROI (elw cymdeithasol ar y buddsoddiad)).

## 3.8. Eiriolaeth

Roedd graddau'r manylion a ddarparwyd am ledaenu ac eiriolaeth yn amrywio'n sylweddol. Darparodd rhai pecynnau cymorth dempledi i helpu gwasanaethau llyfrgell i gyflwyno'u

data'n effeithiol (e.e. #6, #33, #38). Ymhlith y teclynnau a ddefnyddiwyd i greu'r templedi hyn mae PowerPoint, Canva a Word.

Er bod yr allbynnau o rai o'r fframweithiau'n eithaf academaidd eu harddull, mae eraill yn cynnig dulliau a allai fod o gymorth i rannu effaith llyfrgelloedd Cymru'n ehangach, yn arbennig, wrth ddylunio ffeithluniau neu ddeunyddiau gweledol eraill (e.e. #2/3, #12, #18, #21, #22, #24, #41-43). Mae llawer o'r rhain yn canolbwyntio ar gyflwyno data meintiol, ond mae rhai enghreifftiau o gyflwyno data ansoddol yn effeithiol (e.e. mae #19 yn cynnwys 'portreadau defnyddwyr').

Mae ychydig adnoddau'n ymwneud yn bennaf ag eiriolaeth (yn hytrach na chasglu data). Mae #38 yn cynnig arweiniad ar adrodd storïau sy'n 'plethu gwybodaeth ac emosiwn' i ddangos effaith a chyfiawnhau cyllid. Mae'r pecyn cymorth yn gwneud defnydd o ddata sydd eisoes yn cael ei gasglu gan lyfrgelloedd ac yn darparu arweiniad ar rannu hyn drwy ddelweddu ac adrodd storïau. Mae hyn yn ddull cynorthwyol o bosibl am ei fod yn archwilio sut i greu storïau yn dibynnu ar agweddau'r gynulleidfa (e.e. cadarnhaol, negyddol), strwythur stori (darganfod, trawsnewid neu barhad), cymhelliant (cyflawni, meincnodi, cyfiawnhau), a nodau (deall anghenion, ateb anghenion, adeiladu ar gryfderau, mynd i'r afael â diffygion). Fodd bynnag, fel llawer o adnoddau, mae'n ymddangos mai cyfyngedig yw'r defnydd o ddata ansoddol. Mae #41-43 hefyd yn myfyrio ar negeseuon a sianeli cyfathrebu allweddol ar gyfer gwahanol grwpiau rhanddeiliaid. Mae ganddo galendr o 'fachau dyddiadau' pan allai llyfrgelloedd fanteisio ar gyhoeddusrwydd yn gysylltiedig â mater arbennig. Mae gan #36 a #34 ill dau gysylltiadau ag ymchwil ac astudiaethau achos perthnasol sy'n helpu i ddangos effaith llyfrgelloedd ar gyfer amrywiol themâu.

# 4. Dylunio pecyn cymorth effaith i Gymru

## 4.1. Effaith a SLICC

Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru (SLICC) yn adrodd ar ddarpariaeth llyfrgell statudol ac yn canolbwyntio'n bennaf ar fesur mewnbynnau ac allbynnau, gyda rhai mesurau effaith wedi'u cynnwys. Mae adrodd yn flynyddol yn erbyn SLICC yn ofyniad statudol ar gyfer pob awdurdod yng Nghymru.

Bwriedir i Becyn Cymorth Fframwaith 7 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ategu'r data a gesglir drwy SLICC a darparu modd i lyfrgelloedd ddeall a dangos effaith eu gwasanaeth. Mae defnyddio'r pecyn cymorth yn ddewisol.

Isod, rhoddir diffiniadau allweddol ar gyfer y termau 'effaith', 'mewnbynnau', 'allbynnau' a 'deilliannau' fel maent wedi'u defnyddio yn yr adroddiad hwn ac wrth ddatblygu'r Pecyn Cymorth Effaith. Dylid nodi nad oes un diffiniad unigol o'r termau hyn, fel y gwelwyd wrth adolygu'r llenyddiaeth. Ar sail y diffiniadau sydd ar gael, rydym wedi darparu'r diffiniadau syml a phragmataidd canlynol i'w defnyddio drwy'r adroddiad hwn a gyda'r Pecyn Cymorth Effaith.

**Tabl 5: Diffiniadau allweddol**

| Term | Diffiniadau a awgrymir ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru |
|---|---|
| **Effaith** | Dylanwad llyfrgelloedd a'u gwasanaethau ar unigolion a/neu ar gymdeithas. Y gwahaniaeth neu'r newid mewn unigolyn, grŵp neu gymuned o ganlyniad i'r cysylltiad â gwasanaethau llyfrgell. Gallai hyn gynnwys effeithiau sydd yn fwriadol ac yn anfwriadol a allai fod yn gysylltiedig ag amcanion strategol llyfrgell neu beidio. Gallai effaith gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, newidiadau mewn gwybodaeth, sgiliau, ymddygiad, mynediad, ymgysylltiad cymunedol neu les. |
| **Mewnbynnau** | Yr adnoddau a neilltuir i ddarparu gwasanaethau llyfrgell. Mae hyn yn cynnwys staff, cyllid, casgliadau (ffisegol a digidol), cyfleusterau/lleoedd, technoleg, cyfarpar ac asedau ategol eraill. |
| **Allbynnau** | Y cynnyrch neu'r gwasanaethau a ddarperir gan y llyfrgell. Er enghraifft, nifer y benthyciadau, nifer y lawrlwythiadau, nifer yn mynychu hyfforddiant neu ddigwyddiadau ac ymweliadau defnyddwyr. |
| **Deilliannau** | Effaith uniongyrchol, ragddiffiniedig gwasanaethau llyfrgell ar unigolion, grwpiau neu gymunedau sydd wedi'u cysylltu'n benodol â nodau neu amcanion yn nogfennau cynllunio'r gwasanaeth llyfrgell. |

Caiff cysylltiadau rhwng mewnbynnau, allbynnau ac effaith eu cynrychioli'n aml gan ddefnyddio model rhesymeg. Mae Ffigur 2 yn dangos y cysylltiadau sy'n arwyddocaol yn ystadegol rhwng mewnbynnau ac allbynnau llyfrgelloedd, fel y gwelwyd drwy ddata SLICC (2023-24), ac yn nodi sut y gallai'r rhain fod yn gysylltiedig ag effeithiau.

| Mewnbynnau (meintiol) | Allbynnau (meintiol) | Effaith (ansoddol a meintiol) |
|---|---|---|
| Caffaeliadau (HG3; HG8; DAA1/5<br>• Oedolion<br>• Plant<br>• Yr Iaith Gymraeg<br>Gwariant ar ddeunyddiau (B6)<br>Cysylltiad cadarnhaol cryf → | Benthyciadau[i] (DAB2/DAA5)<br>• Oedolion<br>• Plant[ii]<br>• Yr Iaith Gymraeg[iii]<br>Bodlonrwydd (DAB3)<br>• Dewis o lyfrau<br>• Adnoddau ar-lein | **Pecyn Cymorth Effaith**<br><br>**Arolygon defnyddwyr i archwilio effaith ar Ymwybyddiaeth, Hyder, Gwybodaeth oedolion a phlant a'u gallu i roi rhywbeth ar waith yn y meysydd canlynol:**<br>• **cymuned: dod â chymunedau ynghyd**<br>• **diwylliant: cynnig cyfleoedd diwylliannol nad ydynt ar gael yn unman arall**<br>• **dysgu: cefnogi sgiliau rhifedd a hyder**<br>• **lles: gwella iechyd a lles**<br><br>**SLICC**<br>• **DAB1**<br>**a/b % e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau**<br>**c: darparwyd enghreifftiau ansoddol**<br>**d: astudiaeth achos o'r gwahaniaeth cadarnhaol i unigolyn neu grŵp**<br>• **DAB4b: astudiaeth achos o effaith darpariaeth iechyd a lles** |
| Mannau gwasanaeth llyfrgell (HG5; DAA2)<br>Gwariant ar gynnal a chadw (DAB6) | Defnydd o'r llyfrgell (DAB2)<br>• Ymweliadau<br>• Benthycwyr gweithredol<br>• Aelodau llyfrgell | |
| Oriau agor llyfrgelloedd (HG5; DAA3)<br>• Â staff<br>• Gwirfoddolwyr<br>• Heb staff<br>Cysylltiad cadarnhaol cryf → | Defnydd o'r llyfrgell (DAB2)<br>• Ymweliadau<br>• Benthycwyr gweithredol[iv]<br>• Aelodau llyfrgell | |
| Staffio llyfrgelloedd (HG2; DAA4)<br>• Holl staff<br>• Staff cymwysedig<br>• Staff wedi'u hyfforddi<br>Gwariant ar staffio (DAB6) | Defnydd o'r llyfrgell (DAB2)<br>• Cymorth anffurfiol<br>Bodlonrwydd (DAB3)<br>• Gofal cwsmeriaid | |
| Darpariaeth ddigidol (HG6; HG7; DA13)<br>Caffaeliadau (HG3; DAA1)<br>• E-adnoddau<br>Gwariant ar ddeunyddiau (DAB6)<br>Cysylltiad cadarnhao l cryf → | Benthyciadau (DAB2)<br>• E-adnoddau[v]<br>Defnydd o'r llyfrgell (DAB2)<br>• Ymweliadau â'r wefan<br>Bodlonrwydd (DAB3)<br>• Darpariaeth TG<br>• Gwasanaethau ar-lein | |
| Darpariaeth gyffredinol | Bodlonrwydd (DAB3)<br>• Oedolion - Cyffredinol<br>• Sgorau dan 16 oed | |

Ffigur 2: Model rhesymeg yn dangos mewnbynnau, allbynnau ac effeithiau

Gan fyfyrio ar gryfderau a gwendidau amrywiol ddulliau yn yr adolygiad llenyddiaeth, ac adolygiad o Fframwaith 7 SLICC, yn ddelfrydol, dylai pecyn cymorth Effaith Fframwaith 7 wneud y canlynol:

- ategu (ond nid dyblygu) data effaith a gesglir drwy SLICC
- os yn bosibl, defnyddio prosesau casglu data SLICC a/neu ddata a gesglir eisoes drwy SLICC
- caniatáu i ganlyniadau gael eu cyflwyno ar lefel leol, ond hefyd gallu cynyddu eu graddfa i lefel genedlaethol
- darparu cynrychiolaeth ar unwaith, yn aml ar ffurf weledol, o effaith llyfrgelloedd
- casglu tystiolaeth o effaith sy'n debygol o argyhoeddi ystod o randdeiliaid
- peidio â rhoi baich gormodol ar wasanaethau llyfrgell o ran yr amser neu'r adnoddau gofynnol

## 4.2. Themâu a awgrymir ar gyfer y pecyn cymorth

Ar sail yr adolygiad llenyddiaeth a drafodir yn adran 3.7, ynghyd ag adolygiad o Fframwaith 7 SLICC, nodwyd pedair thema gyffredinol i lywio'r gwaith o werthuso effaith llyfrgelloedd. Mae themâu'r Pecyn Cymorth Effaith felly wedi'u seilio ar adolygu llenyddiaeth ryngwladol am lyfrgelloedd, ynghyd ag ystyried themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran yr astudiaethau achos/datganiadau effaith y mae gofyn i wasanaethau llyfrgell eu darparu yn rhan o ffurflen SLICC. Mae'r dull hwn yn golygu bod y themâu arfaethedig wedi'u gwreiddio mewn ymchwil empirig o ystod o wledydd a rhanbarthau, ond maent hefyd yn ystyried pryderon a blaenoriaethau ymarferol llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru. Yn ogystal, mae'n werth nodi bod cysylltiad yn aml rhwng themâu effaith a dulliau casglu data; mae'r themâu arfaethedig yn ystyried y dulliau casglu a dadansoddi data sy'n debygol o fod yn ymarferol ac yn gadarn yng nghyd-destun llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru. Mae'r themâu arfaethedig felly wedi'u canoli o amgylch cymunedau, diwylliant, dysgu a lles a bwriedir iddynt adlewyrchu'r cyfraniadau pwysig y mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn eu gwneud ym mhob un o'r meysydd hyn, a hynny yn lleol ac yn genedlaethol.

**Cryfhau cymunedau:** Mae llyfrgelloedd yn meithrin ymdeimlad o berthyn ac yn cefnogi cysylltiadau cymdeithasol a chydlyniant o fewn cymunedau ac ar draws cymunedau

**Dathlu diwylliant:** Mae llyfrgelloedd yn annog cyfranogiad yn llenyddiaeth, treftadaeth ddiwylliannol a diwylliant cyfoes Cymru, gan gynnwys iaith Gymraeg sy'n ffynnu

**Hyrwyddo dysgu:** Mae llyfrgelloedd yn ysbrydoli ymgysylltiad mewn dysgu drwy gydol bywyd, gan gynnwys datblygu sgiliau llythrennedd, creadigrwydd a digidol, a hyder

**Gwella Lles:** Mae llyfrgelloedd yn cefnogi lles unigolion a chymunedau, gan helpu i wneud Cymru'n lle mwy cyfartal ac iach i fyw

(Noder: Rydyn yn awgrymu defnyddio cynllun lliwiau ac eiconau i gynrychioli'r pedair thema mewn ffeithluniau ac ati. Ni fwriedir i'r enghreifftiau a gyflwynir yn y ddogfen hon gynrychioli dyluniau terfynol; dangos y cysyniad yn unig yw eu bwriad.)

Mae'r themâu hyn wedi'u seilio ar ddadansoddiad o themâu cyffredin a ddefnyddir i ddangos effaith llyfrgelloedd o gwmpas y byd. Er nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â strategaethau Llywodraeth Cymru, gellir mapio'r pedair thema i nifer o strategaethau a dogfennau polisi eraill sydd ar waith ar hyn o bryd, gan ddangos felly sut mae modd cysylltu agweddau ar effaith llyfrgelloedd â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae Atodiad D yn mapio'r themâu arfaethedig yn erbyn nifer o ddogfennau presennol Llywodraeth Cymru.

## 4.3. Dulliau asesu effaith

Ni fydd yr un teclyn na dull yn casglu gwybodaeth am bob agwedd ar effaith llyfrgelloedd. Mae'r adrannau o'r SLICC sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag effaith yn cynnwys a) cwestiynau eang mewn arolwg defnyddwyr (DAB1a, b ac c), a b) astudiaethau achos ansoddol (DAB1d a DAB4b). Ar sail yr adolygiad o'r fframweithiau a'r pecynnau cymorth effaith sy'n bodoli eisoes, yn ogystal ag ystyried cyd-destun llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru, argymhellir y dulliau casglu data ategol canlynol:

1. **arolwg effaith ar gwsmeriaid** i gasglu data er mwyn dangos effaith o dan y pedair thema effaith a nodwyd. Gwneir hyn yn lleol i ddechrau, gyda'r posibilrwydd bod Llywodraeth Cymru yn gwneud hyn yn uniongyrchol yn ddiweddarach.
2. **mesurau gwerth** ar gyfer benthyciadau a gweithgareddau llyfrgelloedd er mwyn dangos gwerth ariannol uniongyrchol darpariaeth llyfrgelloedd.

Bwriedir i'r dulliau hyn ategu'r dulliau sydd eisoes ar waith gan lyfrgelloedd yn rhan o SLICC, ac wrth ystyried effaith gyffredinol eu gwasanaethau, anogir llyfrgelloedd i dynnu ar ddata o SLICC a'r Pecyn Cymorth Effaith fel ei gilydd.

### 4.3.1. Arolwg effaith ar gwsmeriaid

Mae gan arolwg effaith ar gwsmeriaid y fantais o ganiatáu i ddata gael ei gasglu gan nifer mawr o gwsmeriaid. Unwaith y mae wedi'i ddadansoddi, mae modd cyflwyno hyn yn weledol i ddangos effaith llyfrgelloedd mewn ffordd uniongyrchol a chymhellol. Gellir hefyd defnyddio arolwg i gasglu data ansoddol sy'n gallu bod yn ddarbwyllol i amrywiaeth o randdeiliaid.

Mae gan fframwaith sy'n holi am wahanol fathau o effaith fanteision dros fframwaith sydd ond yn ymwneud â chanfyddiadau defnyddwyr o lyfrgelloedd. Mae sawl un o'r teclynnau arolwg a adolygwyd yn rhannu ymgysylltiad cwsmeriaid yn nifer o feysydd penodol (e.e. 'gwybodaeth-hyder-ymwybyddiaeth-ymddygiad', neu 'dysgu-gwybodaeth-hyder-newid golygwedd'). Fodd bynnag, o archwilio amrywiol setiau o gwestiynau a ddefnyddiwyd mewn pecynnau cymorth a oedd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad llenyddiaeth, ni theimlwyd bod yr

un yn gweddu'n berffaith i lyfrgelloedd Cymru. Roedd rhai wedi'u seilio ar raglenni neu fentrau sy'n benodol i wlad neu ardal arbennig; roedd eraill yn hir, gan holi llawer o gwestiynau manwl am ryngweithiadau gwasanaethau llyfrgell, a fyddai'n debygol o beri baich ar wasanaethau i'w dadansoddi, yn ogystal â negyddu diddordeb ymatebwyr o bosibl. Yn bwysicaf, o bosibl, fodd bynnag, nid oedd yr un ohonynt yn cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc.

Mae'r arolwg arfaethedig, felly, yn tynnu ar syniadau o sawl pecyn cymorth er mwyn drafftio holiadur awgrymedig ar gyfer yr effaith ar gwsmeriaid i lyfrgelloedd Cymru. Mae'r holiadur hwn yn cysylltu â'r themâu effaith (Cymuned, Diwylliant, Dysgu a Lles) ac yn gofyn 5 cwestiwn mewn perthynas â phob un: 4 cwestiwn o fath graddfa Likert yn holi am Ymwybyddiaeth, Hyder, Gwybodaeth a gallu cwsmeriaid i Roi rhywbeth ar Waith, ynghyd ag un cwestiwn penagored. Mae'r categorïau ar gyfer y cwestiynau o fath graddfa Likert wedi'u seilio ar strwythurau a ddefnyddir gan arolygon hirsefydledig a oedd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad llenyddiaeth. Mae'r dull hwn yn caniatáu cyflwyno'n weledol (e.e. fel siart radar) (Gweler Tabl 6).

Mae arolwg, wrth gwrs, yn caniatáu i ddata gael ei gasglu gan unigolion ynghylch sut mae'r llyfrgell wedi cael effaith ar eu bywydau. Fodd bynnag, drwy holi sampl ddigon mawr (fel y nodir yng nghanllawiau SLICC), mae modd agregu canlyniadau i ddangos effaith llyfrgelloedd ar lefel gymunedol.

Am fod gofyn i wasanaethau llyfrgell gynnal arolwg cwsmeriaid o leiaf unwaith yn ystod cyfnod Fframwaith 7, gellid cynnwys y cwestiynau ychwanegol hyn am effaith yn rhan o'r broses casglu data hon, gan leihau'r gwaith ychwanegol ar wasanaethau llyfrgell. Yn y tymor hwy, gallai Llywodraeth Cymru archwilio ymarferoldeb gweithredu arolwg effaith yn genedlaethol ar ran gwasanaethau llyfrgell.

Ystyriaeth bwysig yw bod yr arolygon a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth wedi'u dylunio ar gyfer defnyddwyr sy'n oedolion. Yng nghyd-destun llyfrgelloedd Cymru, mae'n hanfodol bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth asesu effaith llyfrgelloedd. Argymhellir, felly, y dylai fod arolwg effaith symlach i blant a allai gael ei gynnwys, fel yr arolwg oedolion, yn rhan o broses casglu data SLICC (Gweler Tabl 6).

Mae Atodiad B yn cynnwys y cwestiynau ar gyfer oedolion a phlant fel ei gilydd ar ffurf holiadur y gellir ei gopïo a'i ychwanegu'n ddiffwdan i'r arolwg SLICC presennol os yw awdurdodau'n dewis gwneud hynny. Dylid nodi na fyddai angen casglu unrhyw ddata personol yn rhan o'r arolygon hyn.

**Tabl 6: Fframwaith arolwg (oedolion)**

| Trwy ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell... (Cytuno'n gryf - Cytuno - Ddim yn cytuno nac yn anghytuno - Anghytuno - Anghytuno'n gryf) | Cryfhau Cymunedau | Dathlu Diwylliant | Hyrwyddo Dysgu | Gwella Lles |
|---|---|---|---|---|
| **Ymwybyddiaeth** | Rwy'n fwy ymwybodol o bethau sy'n digwydd yn fy nghymuned | Rwy'n fwy ymwybodol o ddiwylliant Cymru (e.e. llenyddiaeth, treftadaeth, cerddoriaeth, celf, yr Iaith Gymraeg) | Rwy'n ymwybodol o adnoddau sy'n gallu fy helpu i ddysgu rhywbeth newydd | Rwy'n fwy ymwybodol o gymorth ac adnoddau sy'n gallu helpu i ofalu am fy lles i neu les fy nheulu |
| **Hyder** | Rwy'n teimlo'n rhan o'm cymuned | Rwy'n teimlo'n fwy hyderus yn mynd i leoliadau a digwyddiadau diwylliannol | Rwy'n teimlo fy mod yn gallu dysgu pethau newydd | Rwy'n gallu cymryd gwell gofal o'm lles i neu les fy nheulu |
| **Gwybodaeth** | Rwy' wedi dod i ddysgu mwy am fywydau pobl eraill | Rwy' wedi cynyddu fy ngwybodaeth am ddiwylliant Cymru | Rwy' wedi dysgu pethau sydd o gymorth i'm bywyd bob dydd | Rwy'n deall fy iechyd a'm lles fy hun yn well |
| **Rhoi ar waith** | Rwy' wedi cymryd mwy o ran yn fy nghymuned | Rwy' wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau | Rwy' wedi defnyddio'r hyn rwy' wedi'i ddysgu | Rwy' wedi newid o leiaf un peth i wella fy lles corfforol neu feddyliol |

| | Cryfhau Cymunedau | Dathlu Diwylliant | Hyrwyddo Dysgu | Gwella Lles |
|---|---|---|---|---|
| **Rhoi ar waith (parhad)** | (Penagored: Sut rydych chi wedi cymryd mwy o ran?) | diwylliannol (e.e. ymweliadau awduron, grwpiau darllen/ llyfrau, trafodaethau llenyddol, adrodd storïau, barddoniaeth, cerddoriaeth, grwpiau ysgrifennu creadigol)<br><br>(Penagored: Pa weithgaredd gwnaethoch chi ei fwynhau fwyaf? Pam gwnaethoch chi ei fwynhau?) | drwy ddefnyddio'r llyfrgell<br><br>(Penagored: Esboniwch sut rydych wedi defnyddio'r hyn rydych wedi'i ddysgu) | (Penagored: Os ydych yn fodlon gwneud, disgrifiwch pa agweddau ar eich iechyd corfforol neu feddyliol rydych chi wedi'u newid) |

**Tabl 7: Fframwaith arolwg (plant a phobl ifanc) 26)**

| Mae mynd i'r llyfrgell yn helpu fi i... (Dwi'n cytuno llawer / Dwi'n cytuno tipyn bach / Dwi ddim yn cytuno / Dwi ddim yn siŵr) | Cymuned | Diwylliant | Dysgu |
|---|---|---|---|
| | ...cwrdd â phobl newydd neu wneud ffrindiau | ...cymryd rhan mewn gweithgareddau fel grwpiau darllen, amser stori, cerddoriaeth, celf neu weithgareddau Cymraeg | ...dysgu pethau newydd |

**Cwestiwn lles**

Pan dwi'n mynd i'r llyfrgell, fel arfer dwi'n teimlo...

Rho gylch o amgylch pob gair sy'n disgrifio sut rwyt ti'n teimlo. Cei di ychwanegu dy eiriau dy hun hefyd os wyt ti eisiau.

Yn hapus, yn hyderus, yn siriol, yn nerfus, yn ofnus, yn drist, yn dawel, yn ddiflas, yn ymlaciedig, yn gyffrous, wedi blino, yn grac, yn ddiogel, yn ddryslyd (Noder: Caiff y geiriau eu cyflwyno ar ffurf diagram cwmwl).

### 4.3.2. Dadansoddi data

Er mwyn dadansoddi'r data meintiol a gesglir o'r arolwg, darperir templed Excel, ynghyd ag arweiniad i ganiatáu i wasanaethau llyfrgell gynhyrchu eu 'melinau gwynt' a'u 'diemyntau' effaith eu hunain (Gweler adran 4.4.1). Mae modd cyflwyno canlyniadau o'r arolwg plant fel pictogramau yn dangos canrannau'r bobl ifanc sy'n cytuno gyda datganiadau a'r pum gair mwyaf cyffredin y rhoddwyd cylch o'u hamgylch.

Darperir arweiniad hefyd i gefnogi llyfrgelloedd wrth ddadansoddi ymatebion penagored o'r arolwg effaith. Ar gyfer pob cwestiwn, bydd llyfrgelloedd yn categoreiddio ymatebion o dan set o bynciau wedi'u rhagbennu. Os oes 105 neu fwy o ymatebion, gallai gwasanaethau samplo'n systemataidd fel mai 104 o atebion ar y mwyaf y mae angen eu codio. Darperir arweiniad manwl ynghylch dulliau codio. Gallai gwasanaethau ddewis gwneud hyn yn ymarferol neu gan ddefnyddio Meddalwedd codio ffynhonnell agored (Gweler Atodiad C).

### 4.3.3. Mesurau gwasanaeth cymaradwy

Mae'r Pecyn Cymorth Effaith yn canolbwyntio ar gasglu data er mwyn dangos effaith o dan y pedair 'thema effaith' a gyflwynir. Fodd bynnag, er mwyn ategu hynny mewn modd cyfrannol a hydrin, mae rhai mesurau gwerth syml y gallai llyfrgelloedd ddewis eu casglu, gan dynnu'n bennaf ar ddata sy'n cael ei gasglu eisoes yn rhan o SLlCC. Mae nifer o ddulliau o fesur gwerth llyfrgelloedd. Y dull symlaf, ac o bosibl yr hawsaf i'w gyfleu, yw mesur gwerth llyfrgelloedd ar sail prisiau'r farchnad ar gyfer yr hyn y tybir sy'n wasanaethau cymaradwy. Wrth gwrs, nid yw'r dull hwn yn rhychwantu gorchwyl cyfan gweithgareddau neu effaith llyfrgelloedd, ond gall fod o gymorth o ran dangos gwerth rhai gweithgareddau ar lefel ariannol. Mae hefyd yn bwysig nodi, wrth ddewis symlrwydd, bod cafeatau y dylid eu hystyried. Er enghraifft, mae gwerthoedd ar gyfer benthyciadau ffisegol a ffigurau gweithgarwch wedi'u seilio ar werthoedd cyfartalog nad ydynt o bosibl yn adlewyrchu'n llawn yr ystod o ddeunyddiau neu weithgareddau a ddefnyddir mewn gwasanaeth. Yn yr un modd, mae'r fformiwla benthyciadau digidol wedi'i seilio ar gost tanysgrifiad blynyddol, nad yw o bosibl yn adlewyrchu'r ffordd mae pob cwsmer yn gwneud defnydd o adnoddau digidol. Anogir llyfrgelloedd, felly, i gynnwys cafeatau clir wrth gyflwyno unrhyw ffigurau buddion economaidd.

**Benthyciadau ffisegol**

Mae'r fethodoleg arfaethedig wedi'i seilio ar yr hyn a ddisgrifiwyd gan Broad, Parr a Turda (2015), sydd yn eu tro yn tynnu ar waith gan y Martin Prosperity Institute[4] (2013) mewn perthynas â Llyfrgelloedd Toronto. Mae methodolegau tebyg wedi eu mabwysiadu gan nifer o wasanaethau llyfrgell Canada.

Mae hyn yn defnyddio ffigurau SLICC ar gyfer nifer y benthyciadau ar gyfer adnoddau Oedolion, Plant ac adnoddau Cymraeg. Er mwyn cyfrifo gwerth ar gyfer benthyciadau ffisegol, aseinir gwerth manwerthu eitemau fel "gwerth uchel". Ceir "gwerth isel" drwy ostwng 80% oddi ar y gwerth, gan fod yr eitemau hyn yn cael eu defnyddio droeon gan

[4] https://www.torontopubliclibrary.ca/content/about-the-library/service-plans-strategies-frameworks/So.Much.More.Economic.Impact.Study.pdf

ddefnyddwyr llyfrgelloedd. Yna, pennir "gwerth canolig" drwy ychwanegu'r gwerth uchel a'r gwerth isel a rhannu â dau (h.y. 60% o'r gwerth manwerthu). Mae modd pennu'r 'budd economaidd uniongyrchol' (neu'r gwerth a arbedwyd ar gyfer y gymuned) drwy ddefnyddio cyfartaledd ar gyfer pob categori o fenthyciadau drwy'r LMS (system rheoli llyfrgelloedd).

Felly, 'gwerth benthyciadau' = DASLICC B5e x 0.6 x gwerth manwerthu cyfartalog (a geir drwy LMS).

Er enghraifft, os caiff gwerth manwerthu cyfartalog llyfr oedolyn ei gyfrifo yn £15, y gwerth canolig fyddai 60% o £15 = £9. Gan ddefnyddio'r data a ddarparwyd ar gyfer SLICC 2023-24, byddai hyn yn gyfwerth â buddion economaidd uniongyrchol ar gyfer defnyddwyr yn genedlaethol o 4,754,746 o fenthyciadau x £9 = £42,792,714.

**Benthyciadau digidol**

Caiff gwerth gwasanaethau digidol ei gyfrifo drwy edrych ar ddefnydd misol cyfartalog a chostau tanysgrifio yn y farchnad fanwerthu. Mae llai o fanylion am y fethodoleg hon yn y llenyddiaeth am fod e-adnoddau ond wedi dechrau cael eu defnyddio'n helaeth yn y blynyddoedd diwethaf. Nod y dull a awgrymir yw nodi nifer benthycwyr unigol e-lyfrau y flwyddyn ac yna cymharu hynny â chost tanysgrifiad e-lyfrau masnachol. Ar hyn o bryd, y lluosydd mwyaf priodol yw tanysgrifiad blynyddol i Kindle Unlimited, wedi'i ostwng 20% i ganiatáu am wahaniaethau o ran hygyrchedd rhwng Kindle Unlimited a chynnig BorrowBox awdurdod llyfrgell (h.y. yr angen posibl i archebu i fenthyg llyfrau nad ydynt ar gael ar unwaith a'r cyfnod benthyg cyfyngedig). Yn 2025, cost tanysgrifiad Kindle Unlimited yw £113.88 y flwyddyn. Dylid adolygu'r ffigur hwn yn flynyddol gan ddefnyddio gwefan Amazon. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, dim ond ar gyfer defnyddwyr BorrowBox mae ffigurau ar gael, ond os bydd data ar gyfer darparwyr arall ar gael yn y dyfodol, gellid mabwysiadu proses debyg.

Felly, gwerth benthyciadau digidol = nifer defnyddwyr unigol BorrowBox x 0.8 x £113.88.

Ar sail data BorrowBox 2024-25 yn unig, byddai hyn yn gyfwerth â buddion economaidd uniongyrchol ar gyfer defnyddwyr yn genedlaethol o 124,619 o ddefnyddwyr unigol x 0.8 x £113.88 = £11,353,289.

**Gweithgareddau**

Pennir gwerth gwasanaeth cymaradwy gweithgareddau llyfrgell drwy ymchwilio rhaglenni tebyg a ddarperir gan y sector preifat, cael nifer o bwyntiau pris ac yna pennu cyfartaledd y mae modd ei luosi â'r nifer sy'n mynychu gweithgareddau (Broad, Parr a Turda, 2015).

Am mai cyfanswm ffigur mynychu digwyddiadau sy'n cael ei ddarparu yn SLICC (yn hytrach na ffigurau ar wahân ar gyfer amser Rhigwm, sesiynau sgiliau digidol, sgyrsiau awduron, ac ati), mae gwerth 'gweithgareddau' unigol wedi'i gyfrifo ar sail gwerth cyfartalog y farchnad ar gyfer gweithgareddau a restrir yn Fframwaith 7 SLICC, Adran 1.1.

- Grŵp llyfrau: £1
- Grŵp crefftau: £4
- Grŵp cymdeithasol pobl hŷn: £4

- Grŵp ysgrifennu creadigol: £2.50
- Grŵp sgwrsio i ymarfer iaith: £3
- Clwb gemau: £3
- Clwb codio: £7
- Amser stori: £5
- Hel atgofion: £3
- Grŵp gofalwyr: £3
- Caffi cof: £3

Mae hyn yn awgrymu ffigur o £3.50 y tro i fynychu digwyddiad, gan gydnabod bod hyn yn cynrychioli'r costau y gallai fod disgwyl i unigolyn eu talu i fynd i weithgareddau tebyg yn rhywle arall, yn hytrach nag unrhyw fuddion iddyn nhw yn sgil mynychu. Amcangyfrif bras iawn y bydd yw ffigur hwn, wrth gwrs, am fod gwasanaethau gwahanol yn cynnig mathau gwahanol o weithgareddau sy'n para am gyfnodau amser gwahanol. Argymhellir addasu'r ffigur cyfartalog hwn ar gyfer mynychu digwyddiadau yn unol â chwyddiant blynyddol ym mis Ebrill bob blwyddyn, ac y cynhelir adolygiad o'r pwyntiau pris ar gyfer gweithgareddau pob 3 blynedd.

Felly:

gwerth 'gweithgareddau' = nifer y mynychiadau a adroddwyd yn DASLICC B5a x £3.50


Fel enghraifft, ar sail y data a ddarparwyd ar gyfer y SLICC yn 2024-25, byddai hyn yn gyfwerth â buddion economaidd uniongyrchol ar gyfer defnyddwyr llyfrgelloedd o £3,581,802 yn genedlaethol.

## 4.4. Cyflwyno data

Mae cyflwyno data'n effeithiol yn bwysig er mwyn cyfathrebu effaith llyfrgelloedd i ystod eang o gynulleidfaoedd. Ystyriwyd datblygu templed i awdurdodau ei ddefnyddio i gyflwyno'u data effaith yn rhan o'r prosiect hwn. Fodd bynnag, mae hyn yn drafferthus oherwydd na fydd gan bob awdurdod fynediad at yr un feddalwedd, diweddariadau posibl i feddalwedd yn ystod cyfnod Fframwaith 7 a'r angen posibl i awdurdodau gydymffurfio â gofynion corfforaethol penodol o ran dyluniad deunyddiau cyfathrebu cyhoeddus. Y dull a fabwysiadwyd, felly, yw i ddarparu modd i lyfrgelloedd gynhyrchu siartiau'n hawdd i gynrychioli'r data maent wedi'i gasglu gan ddefnyddio Excel ac i gynnig enghreifftiau o sut gellid ymgorffori'r rhain, a data effaith arall, mewn ffeithlun. Bwriedir i'r enghreifftiau hyn (gweler Atodiadau E i H) ddarparu ysbrydoliaeth i helpu llyfrgelloedd wrth ddylunio'u deunyddiau eu hunain. Mae'r graffeg yn dilyn gosodiad syml y gellid ei atgynhyrchu mewn amrywiol becynnau meddalwedd yn dibynnu beth sydd ar gael mewn awdurdodau lleol.

### 4.4.1. Arolwg effaith

Caiff data meintiol o'r arolwg effaith ar gwsmeriaid ei gyflwyno'n weledol. Gellir cyflwyno data o'r arolwg oedolion fel siart radar (sef 'melin wynt' yma). Mae'r canlynol yn enghraifft wedi'i seilio ar ddata ffug.




Ffigur 3. Melin wynt effaith


Gall hyn fod yn rhan o **ffeithlun 'effaith gyffredinol'**, sydd hefyd yn cynnwys:

- % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau DASLICC B1a)
- % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn gwneud eu bywyd yn well (DASLICC B1b)
- dyfyniadau wrth ymyl delweddau'n ymwneud â phob thema (cymuned, diwylliant, dysgu a lles). Wrth ddethol dyfyniadau, dylai llyfrgelloedd dynnu ar ddata a gasglwyd gan oedolion a phlant/pobl ifanc fel ei gilydd. Darperir arweiniad ynghylch dadansoddi data a gasglwyd drwy'r arolwg effaith isod. Fodd bynnag, mae croeso hefyd i lyfrgelloedd dynnu ar enghreifftiau perthnasol o ymatebion penagored SLICC (DAB1a/b) os dymunant
- unrhyw fesurau gwasanaeth cymaradwy dethol (e.e. gwerth benthyciadau ffisegol, benthyciadau digidol neu weithgareddau).

Mae Atodiad E yn darparu enghraifft o raffeg effaith gyffredinol. Mae Atodiad F yn darparu cyflwyniad amgen o'r data cyffredinol ar gyfer gwasanaeth llyfrgell.

Mae **ffeithluniau thematig** yn amlygu effeithiau o dan bedair thema'r Pecyn Cymorth. Bydd hyn yn cynnwys 'diemwnt effaith' ar gyfer y thema (gan ddangos ymatebion i'r arolwg effaith ar oedolion), ynghyd â chanlyniadau o'r cwestiwn perthnasol yn yr arolwg plant a dadansoddiad o'r data ansoddol. Er enghraifft, gallai'r 'ffeithlun Cymuned' gynnwys:

- diemwnt effaith




Ffigur 4. Enghraifft o ddiemwnt sy'n dangos effaith

- pictogram sy'n dangos canran y plant/pobl ifanc sy'n cwrdd â phobl newydd neu'n gwneud ffrindiau
- dyfyniadau i adlewyrchu gwahanol fathau o gysylltiad - Mynychu gweithgareddau neu grwpiau yn y llyfrgell neu'r tu hwnt, datblygu cyfeillgarwch, gwirfoddoli yn y llyfrgell neu'r tu hwnt, mathau eraill o ymgysylltiad dinesig (a dyfyniadau perthnasol gan bobl ifanc o DASLICC B1b sy'n benagored)

Mae Atodiad G yn darparu enghraifft o raffeg effaith ar les gan ddefnyddio'r diemwnt effaith a dyfyniadau. Mae Atodiad H yn darparu enghraifft o raffeg effaith ar ddysgu gan ddefnyddio'r diemwnt effaith a dyfyniadau.

### 4.4.2. Nodiadau ychwanegol ar gyflwyno data

Mae'r adroddiad hwn yn darparu enghreifftiau o'r ffyrdd y gellid cyflwyno data, er y cydnabyddir y bydd hwn, yn y pen draw, yn benderfyniad lleol i bob awdurdod. Nid oes un templed unigol a fydd yn gweddu i bob awdurdod, a bydd gwasanaethau llyfrgell yn defnyddio pecynnau dylunio gwahanol. Mae'r egwyddorion hyn yn cefnogi cysondeb heb gyfyngu ar greadigrwydd lleol.

**Aliniwch ddata gyda diben a chwmpas y cyflwyniad.** Dylid dethol y dangosyddion mwyaf ystyrlon i gyd-fynd â'ch diben, er enghraifft, eiriolaeth neu werthuso. Nid oes angen cynnwys pob canlyniad. Gallech ddewis dangosyddion sy'n darparu trosolwg o berfformiad y gwasanaeth yn gyffredinol ar draws pob un o'r pedwar maes thematig. Fel arall, gallech ddewis canolbwyntio ar un neu fwy o feysydd thematig ar gyfer cynulleidfa arbennig. Gallai hyn gynnwys cyflwyno canfyddiad arbennig o gryf neu arwyddocaol; adlewyrchu meysydd o flaenoriaeth strategol leol; neu ganolbwyntio ar ddyfyniadau cadarn am bwnc penodol.

**Cadwch y neges yn gryno.** Mae deunyddiau effaith yn aml ar eu mwyaf effeithiol pan fyddant yn canolbwyntio ar negeseuon cofiadwy clir.

**Dewiswch y cydbwysedd mwyaf priodol o ddata meintiol ac ansoddol.** Mae data meintiol yn darparu graddfa, a gall naratif roi persbectif personol. Gallech ddewis cynnwys data ychwanegol o ffynonellau eraill gan gynnwys dangosyddion blynyddol SLICC lle bo hynny'n briodol.

**Cyflwynwch y data mewn ffordd sy'n gweithio i'ch cyd-destun lleol.** Mae gan bob gwasanaeth ei hunaniaeth gorfforaethol, ei brotocolau cyfathrebu a'i gynulleidfaoedd ei hun. Dylai gwasanaethau addasu'r arddull cyflwyno i gyd-fynd â phaletau lliw a safonau dylunio lleol, a gweddu i wahanol ddarllenwyr, gan gynnwys cynghorwyr, uwch reolwyr, cwsmeriaid llyfrgell a phartneriaid cymunedol.

**Ystyriwch gynnwys dolenni i wybodaeth bellach.** Ystyriwch a ydych chi am gynnwys dolen i wybodaeth bellach neu eglurhad pellach o'r data a gyflwynwyd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, cod QR sy'n cyfeirio pobl at ddiffiniadau o dermau a ddefnyddir neu ddata manylach sydd wedi'i gynnwys mewn adroddiad.

## 4.5. Adfyfyrdodau ar y broses beilot

Cynhaliwyd cynllun peilot mewn dau wasanaeth llyfrgell o'r arolwg effaith ar gwsmeriaid ar gyfer oedolion a phlant fel ei gilydd rhwng mis Medi a mis Hydref 2025. Gwnaeth y naill wasanaeth hyn ar draws eu gwasanaeth cyfan ar y cyd â'u harolwg cwsmeriaid SLICC, tra bod y llall wedi cynnal cynllun peilot ar raddfa lai mewn dwy gangen. O ganlyniad i adborth yn sgil y broses beilota, gwnaed y newidiadau canlynol:

- cafodd y daenlen ddadansoddi ei gwirio a'i mireinio
- newidiwyd y cwestiwn penagored yn ymwneud â Diwylliant i ganolbwyntio'r ymatebion yn gliriach ar ganfyddiadau cwsmeriaid o effaith gweithgareddau diwylliannol
- Addaswyd graddfa'r holiadur i gynorthwyo gwasanaethau i ddefnyddio'r arolwg effaith ar y cyd ag arolwg cwsmeriaid SLICC

Awgrymodd adborth y gallai arolwg ychwanegol i arddegwyr fod o gymorth, ond penderfynwyd, ar ôl pwyso a mesur, bod y gwaith ychwanegol o ran dosbarthu a dadansoddi tri arolwg (i blant, arddegwyr ac oedolion) yn annhebygol o fod yn rhywbeth y mae gan lawer o wasanaethau gapasiti i'w wneud. Fodd bynnag, os yw gwasanaethau'n cynnal arolwg effaith *ar wahân i arolwg SLICC*, gallent ddymuno cynnig yr arolwg oedolion i bobl ifanc 13 oed a throsodd. (Noder: Os yw gwasanaethau'n cynnal arolwg effaith ar y cyd ag arolwg SLICC, ar sicrhau bod y data'n cael ei gasglu gan yr ystod oedran cywir at ddibenion adrodd SLICC y dylai eu blaenoriaeth fod).

Cydnabyddir bod dadansoddi ansoddol yn gallu bod yn llafurus o ran amser, yn dibynnu ar nifer yr ymatebion penagored. Gallai rhai gwasanaethau ystyried defnyddio meddalwedd benodol neu raglenni DA (deallusrwydd artiffisial) i gynorthwyo gyda'r dadansoddi hwn. Er enghraifft, gellir defnyddio pecynnau DA i gategoreiddio ymatebion penagored ar sail y fframwaith codio ar gyfer pob thema. Mae'n bwysig gwirio allbynnau DA o ran cysondeb, a allai gynnwys prawf samplo ar ôl pob deg ymateb er mwyn asesu a yw wedi'i gategoreiddio'n gywir. Dylech gyfeirio at Atodiad C am fanylion pellach.

Dadansoddwyd data'r cynllun peilot er mwyn archwilio cysondeb mewnol ymatebion i'r arolwg. Defnyddiwyd alffa Cronbach i fesur i ba raddau y mae pob eitem (h.y. cwestiynau yn yr arolwg) yn mesur yr un cysyniad (h.y. effaith o ran cymuned, diwylliant, dysgu neu les). Mae'r gwerthoedd a gyfrifwyd ar gyfer pob cysyniad yn cyfleu lefel ddibynadwy uchel i lefel ddibynadwy uchel iawn o gysondeb mewnol. Mae Tabl 8 yn gosod y canlyniadau.

**Tabl 8: Alffa Cronbach ar gyfer data'r cynllun peilot**

| | Awdurdod A | Awdurdod B |
|---|---|---|
| **Nifer yr Ymatebion** | 53 | 570 |
| **Effaith alffa Cronbach - Cymuned** | 0.894 | 0.882 |

| | Awdurdod A | Awdurdod B |
|---|---|---|
| **Effaith alffa Cronbach - Diwylliant** | 0.811 | 0.824 |
| **Effaith alffa Cronbach - Dysgu** | 0.871 | 0.901 |
| **Effaith alffa Cronbach - Lles** | 0.879 | 0.903 |

# 5. Camau nesaf a datblygiadau at y dyfodol

Mae'r Pecyn Cymorth Effaith ar gael i lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru ei ddefnyddio drwy gydol cyfnod Fframwaith 7. Mae awduron yr adroddiad yn awgrymu camau ychwanegol i Lywodraeth Cymru eu hystyried, a allai gynorthwyo llyfrgelloedd ymhellach wrth ddefnyddio'r Pecyn Cymorth. Cydnabyddir y byddai angen ystyried unrhyw gamau neu benderfyniadau i'w gweithredu yng nghyd-destun y capasiti a'r gyllideb sydd ar gael.

- Cyflwyno'r Pecyn Cymorth i bob awdurdod ei ddefnyddio drwy gydol cyfnod Fframwaith 7 SLICC, a chynnig cymorth ac arweiniad rheolaidd; yn arbennig, mae'n debygol y bydd angen eglurhad parhaus ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer SLICC a'r hyn sy'n ddewisol (h.y. cwestiynau'r arolwg effaith).

- Llywodraeth Cymru i fesur adborth a gwerthuso'r broses, a pharhau i archwilio cysylltiadau rhwng mewnbynnau ac allbynnau a restrir yn Ffigur 2, er mwyn darparu tystiolaeth i gefnogi'r model rhesymeg (Ffigur 2). Gallai'r data hwn fwydo hefyd i ôl-adolygiad o Fframwaith 7.

- Llywodraeth Cymru i archwilio ymarferoldeb darparu ffeithlun ar lefel genedlaethol, gan dynnu ar ddata a ddarperir gan wasanaethau llyfrgell, er mwyn dangos effaith gyfansawdd llyfrgelloedd Cymru; bydd hyn yn mynnu datblygu proses er mwyn i wasanaethau ei defnyddio i gyflwyno'u data effaith i'w gynnwys yn y crynodeb lefel genedlaethol (gellid gwneud hyn ochr yn ochr â SLICC neu fel ymarfer ar wahân).

- Llywodraeth Cymru i archwilio ymaferoldeb gweithredu arolwg effaith yn genedlaethol ar ran gwasanaethau llyfrgell.

  Am fod gofyn i wasanaethau llyfrgell gynnal arolwg cwsmeriaid o leiaf unwaith yn ystod cyfnod Fframwaith 7, gellid cynnwys y cwestiynau ychwanegol hyn am effaith yn rhan o'r broses casglu data hon, gan leihau'r gwaith ychwanegol i wasanaethau llyfrgell. Fodd bynnag, gallai llyfrgelloedd gynnal yr arolwg effaith ar adeg wahanol i arolwg cwsmeriaid SLICC. Er y byddai hynny'n golygu cost ychwanegol a gofynion gweinyddol i Lywodraeth Cymru, petai arolwg cenedlaethol yn cael ei ddarparu, mae rhai manteision hefyd i'w hystyried, ac mae'r rhain yn cynnwys: gallai cymorth gan Lywodraeth Cymru annog mwy o awdurdodau i gynnal arolwg (sy'n ddewisol); byddai'n sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff cwestiynau eu cyflwyno; byddai arolwg

cenedlaethol yn safoni'r dull casglu data a'r cyfnod adrodd ar draws yr holl wasanaethau sy'n cymryd rhan; a chaiff y broses o greu ffeithlun ar lefel genedlaethol ei symleiddio am na fydd angen i Lywodraeth Cymru gynnal ymarfer ar wahân i goladu data lleol.

Argymhellir dros gyfnod Fframwaith 7 SLICC y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a yw'n bosibl datblygu cynllun i weithredu arolwg effaith cenedlaethol (gweler Atodiad B) ar ran gwasanaethau llyfrgell. Cydnabyddir y bydd unrhyw benderfyniad i wneud hynny yn dibynnu ar ystod o ffactorau gan gynnwys cyllideb, capasiti a blaenoriaethau presennol y llywodraeth, ac na chaiff ei weithredu o bosibl yn ystod cyfnod Fframwaith 7.

# Atodiad A: Rhestr o'r adnoddau a adolygwyd

Rhestr yw'r canlynol o'r ffynonellau pecyn cymorth y cyfeiriwyd atynt yn yr adolygiad.

| | **Teitl** | **Awdur** |
|---|---|---|
| 1 | How good is our public library service? | Cyngor Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yr Alban (SLIC) |
| 2 | The Impact of Public Libraries in Denmark: A Haven In Our Community | Llyfrgelloedd Canolog Roskilde a Seismonaut |
| 3 | A Guide to the Impact Compass. The impact of public libraries in Denmark: a haven in our community | Llyfrgelloedd Canolog Roskilde a Seismonaut |
| 4 | Experience Impact Compass | Seismonaut |
| 5 | Valuing Ontario Libraries Toolkit: Executive Summary | Gwasanaeth Llyfrgell Ontario a Sefydliad NORDIK |
| 6 | Valuing Ontario Libraries Toolkit (VOLT) | Gwasanaeth Llyfrgell Ontario a Sefydliad NORDIK |
| 7 | An impact analysis of services of Suffolk libraries | Sefydliad Ymgynghorol nid-er-elw MOORE |
| 8 | Libraries for living, and for living better. The value and impact of public libraries in the East of England | CreativeUEA Prifysgol East Anglia a Health Economic Consulting |
| 9 | The value and impact of Scotland’s libraries | Éadaoín Lynch ar gyfer Ymddiriedolaeth Llyfrau yr Alban |
| 10 | National Museums Scotland - Social Impact Toolkit Introduction and Guide | Amgueddfeydd Cenedlaethol yr Alban |
| 11 | Suffolk Libraries Impact Engagement Toolkit | Llyfrgelloedd Suffolk Libraries a’r Audience Agency |
| 12 | Suffolk libraries creating positive well-being & making lives better | Llyfrgelloedd Suffolk a MIND |

| | Teitl | Awdur |
|---|---|---|
| 13 | Canadian Association of Research Libraries (CARL) Library Impact Library Toolkit Project Overview | Romaiuk a Wheeler, Prifysgol Calgary |
| 14 | The CARL Library Impact Framework: A Logic Model Approach to Impact Assessment for Research Libraries | Robertson, Gottschalk a Wheeler |
| 15 | CARL Library Impact Framework Worksheet | |
| 16 | Assessing the Economic Impact of Vancouver Island Regional Library on our Member Communities | Gweinyddiaeth Llyfrgelloedd Rhanbarthol Ynys Vancouver |
| 17 | British Columbia Measuring Social Impact of Public Libraries | Partneriaid Llyfrgelloedd Cyhoeddus Columbia Brydeinig |
| 18 | The Economic Impact of Barrie Public Library 2018 | Llyfrgell Barrie |
| 19 | Enabling Torontonians to grow and thrive Measuring the social impact of Toronto Public Library | Seismonaut |
| 20 | Enabling Torontonians to Grow and Thrive Social Impact Study Executive Summary | Seismonaut |
| 21 | The Economic Impact of Vaughan Public Libraries on the City of Vaughan | Llyfrgelloedd Cyhoeddus Vaughan |
| 22 | The Total Economic Impact of Milton Public Library Summary | Llyfrgell Gyhoeddus Milton |
| 23 | The-Value of-Sault Ste Maries Public Library | Sefydliad NORDIK |
| 24 | Under the Umbrella Stratford Public Libraries Economic Impact | Llyfrgell Gyhoeddus Stratford |
| 25 | The health and well-being benefits of public libraries 2015 | Fujiwara, Lawton, Mourato |
| 26 | Guidelines_standards_and_outcome_measures_for_australian_public_libraries | Deakin, ACT: Cymdeithas Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Awstralia |
| 27 | What Is the Value of a Public Library? Possibilities, Challenges, Opportunities | Joseph Matthews |

| | Teitl | Awdur |
|---|---|---|
| 28 | Unlimited Value: Leading Practice In Unlimited Value Creation | Libraries Unlimited, Prifysgol Caerwysg, Hawkins, Beverley; Bailey, Adrian; Coles, Tim; Harvey, Will; Smart, Andi; Waters, Hugh |
| 29 | Project Outcome | Y Gymdeithas Llyfrgelloedd Cyhoeddus/Public Libraries Association |
| 30 | Understanding the Social Well-being Impacts of the Nation's Libraries and Museums ILM 2021 | Michael H. Norton, Mark J. Stern, Jonathan Meyers, Elizabeth DeYoung |
| 31 | NHS Value and Impact Toolkit | Tîm Gwybodaeth ar gyfer Gofal Iechyd, y GIG (Lloegr) |
| 32 | Research and Assessment Cycle Toolkit | ALA (Cymdeithas Llyfrgelloedd America) |
| 33 | Impact Toolkit | CILIP |
| 34 | Working towards measuring library impact | Llyfrgell Genedlaethol Seland Newydd |
| 35 | Measuring Impact | Cyngor Celfyddydau Lloegr |
| 36 | Libraries shaping the future: good practice toolkit | Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) |
| 37 | Ail gopi | |
| 38 | Data Storytelling Toolkit for Libraries | Yr Athro Kate McDowell |

| | Teitl | Awdur |
|---|---|---|
| 39 | Observation Deck | Llyfrgelloedd Cyhoeddus Madison, Llyfrgelloedd Cyhoeddus Waupaca, Llyfrgelloedd Cyhoeddus Skokie |
| 40 | Theory of Change: a new approach to data by Schools Library Services in the UK | Thebridge, S a Harris G |
| 41 | Well-being-and-Scottish-Public-Libraries-Supporting-Narrative | Cyngor Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yr Alban (SLIC) |
| 42 | Well-being and Scottish Public Libraries Communications Plan | Cyngor Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yr Alban (SLIC) |
| 43 | Well-being and Scottish Public Libraries Slides | Cyngor Llyfrgelloedd a Gwybodaeth yr Alban (SLIC) |
| 44 | Rochester Public Library Logic Model | Llyfrgell Gyhoeddus Rochester a Wilder Research |
| 45 | Contemporary evaluation methods of library's impact used in the National Library of Estonia | Llyfrgell Genedlaethol Estonia |
| 46 | British Library Economic Impact Assessment of the Business & IP Centre (BIPC) National Network | ERS Research and Consultancy |
| 47 | ISO 16439:2014 Information and documentation - Methods and procedures for assessing the impact of libraries | Pwyllgor Technegol ISO/TC 46/SC 8 |
| 48 | Public Libraries Evaluation Network | Culture Counts |
| 49 | Evaluating the Economic Impact of a public service - the case of the Municipal Library of Prague | Stejskal & Hejak |
| 50 | Value Study of GLAMs In Canada Report for the Ottawa Declaration Working Group | Oxford Economics |
| 51 | Library Return on Investment Reviewing the evidence from the last 10 years | IFLA |

| | Teitl | Awdur |
|---|---|---|
| 52 | LIBRARIES WORK! The socio-economic value of public libraries to Victorians | SGS Economics and Planning |
| 53 | The Economic Value of Public Libraries | Copenhagen Economics |
| 54 | Economic impact of independent museum sector | Dr. Stephen Connolly (DC Research) a Jonathan Durnin (Durnin Research) |
| 55 | Libraries Deliver: Ambition for Public Libraries in England 2016-2021 | Y Tasglu Llyfrgelloedd |
| 56 | The answer is libraries: The value of public libraries in South Australia | SGS Economics and Planning |
| 57 | Evidencing impact in Kent | Rheolwr Gwasanaeth Sarah Bottle – Arloesi, Digidol a Llyfrgelloedd, Cyngor Dinas Caint |
| 58 | Impact The Evaluation Tool | Jan Holden Nick Little Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Norfolk |

# Atodiad B: Holiaduron Cwsmeriaid

Dylai awdurdod gynnal arolygon cwsmeriaid o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod 2025-28. Er y caiff awdurdodau gynnal arolwg effaith ar gwsmeriaid ar wahân os dymunant, argymhellir y dylid ychwanegu'r cwestiynau isod at arolwg Fframwaith 7 SLICC. Darperir arweiniad pellach ar gynnal arolygon yn y ddogfen Diffiniadau ac Arweiniad SLICC. Dylech ofyn am gyngor gan arbenigwyr eich awdurdod lleol os nad ydych yn sicr ynghylch cynnal arolygon.

Dylai arolygon gasglu barn gan ymwelwyr llyfrgelloedd ffisegol a llyfrgelloedd ar-lein fel ei gilydd. Mae gan wasanaethau ryddid i ddewis sut orau i gyflwyno'r cwestiynau hynny ar sail y feddalwedd maent yn ei defnyddio a'u dull o wneud hynny, gan gynnwys defnyddio unrhyw logos neu ddatganiadau diogelu data safonol. Dylai arolygon fod ar gael ar ffurf brintiedig ym mhob cangen. Fodd bynnag, er mwyn hwyluso coladu data ac i ganiatáu mwy o breifatrwydd i gwsmeriaid wrth gwblhau arolygon, argymhellir y dylid cynnig opsiwn i gwsmeriaid gwblhau'r arolwg ar-lein (e.e. ar lechen gyda'r arolwg wedi'i raglwytho arni neu drwy ddarparu dolen/cod QR y gallant ei sganio gyda'u dyfais eu hunain). Dylai gwasanaethau unigol benderfynu sut orau i hyrwyddo'r arolwg i'w cwsmeriaid, ond mae hyn yn debygol o gynnwys: posteri neu hysbysiadau mewn llyfrgelloedd; hyrwyddo'r arolwg yn uniongyrchol mewn sgyrsiau gyda chwsmeriaid llyfrgell; a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Dylai'r arolwg ar-lein fod ar gael drwy ddolen o wefan y llyfrgell, ac mae'n bosibl y byddwch am ddosbarthu'r ddolen hon mewn ffyrdd eraill hefyd (e.e. drwy'r cyfryngau cymdeithasol).

Dylech anelu at sicrhau bod oddeutu 400 o holiaduron yn cael eu cwblhau. Er nad yw'n fwriad i'r arolwg fod yn gynrychioliadol o gwsmeriaid llyfrgell, dylech sicrhau bod rhai ymatebion o bob cangen.

Dylai'r arolwg plant hefyd fod ar gael ym mhob cangen. Mae'n bosibl y byddwch hefyd am sicrhau bod hwn ar gael ar-lein os oes gennych dudalen ddynodedig gydag adnoddau ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc. Dylech anelu at sicrhau bod rhwng 350 a 400 o holiaduron yn cael eu cwblhau.

**Arolwg oedolion**

Bydden ni'n hoffi gwybod pa mor bwysig yw'r gwasanaeth llyfrgell i chi a'r effaith mae wedi'i chael ar eich bywyd. Gall eich atebion ein helpu i ddeall sut mae cwsmeriaid yn defnyddio ein gwasanaethau a datblygu gwasanaethau sydd hyd yn oed yn well i chi. Mae'r holl atebion yn wirfoddol a chânt eu trin yn gyfrinachol. Caiff unrhyw ymatebion a gaiff eu defnyddio mewn ffyrdd eraill eu hanonymeiddio. Diolch i chi am eich cydweithrediad.

1. Drwy ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell [enw'r awdurdod lleol]...

| | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| a)... Rwy'n fwy ymwybodol o bethau sy'n digwydd yn fy nghymuned. | | | | | |
| b)... Rwy'n teimlo'n rhan o'm cymuned. | | | | | |
| c)... Rwy' wedi dod i ddysgu mwy am fywydau pobl eraill. | | | | | |
| d)... Rwy' wedi cymryd mwy o ran yn fy nghymuned. | | | | | |

e) Os mai 'cytuno' neu 'cytuno'n gryf' oedd eich ateb i gwestiwn d, rhowch wybod i ni sut rydych yn cymryd mwy o ran yn eich cymuned.

2. Drwy ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell [enw’r awdurdod lleol]...

| | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** |
|---|---|---|---|---|---|
| a)... Rwy'n fwy ymwybodol o ddiwylliant Cymru (e.e. llenyddiaeth, treftadaeth, cerddoriaeth, celf, yr Iaith Gymraeg). | | | | | |
| b)... Rwy'n teimlo'n fwy hyderus yn mynd i leoliadau a digwyddiadau diwylliannol. | | | | | |
| c)... Rwy' wedi cynyddu fy ngwybodaeth am ddiwylliant Cymru. | | | | | |
| d)... Rwy' wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol (e.e. | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| ymweliadau awduron, grwpiau darllen/llyfrau), trafodaethau llenyddol, adrodd storïau, barddoniaeth, cerddoriaeth, grwpiau ysgrifennu creadigol). | | | | | |

e) Os mai 'cytuno' neu 'cytuno'n gryf' oedd eich ateb i gwestiwn d, rhowch wybod i ni pa weithgaredd y gwnaethoch chi ei fwynhau fwyaf a pham y gwnaethoch chi ei fwynhau.

3. Drwy ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell [enw'r awdurdod lleol]...

| | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** |
|---|---|---|---|---|---|
| a)... Rwy'n ymwybodol o adnoddau sy'n gallu fy helpu i ddysgu rhywbeth newydd. | | | | | |
| b)... Rwy'n teimlo fy mod yn gallu dysgu pethau newydd. | | | | | |
| c)... Rwy' wedi dysgu pethau sydd o gymorth i'm bywyd bob dydd. | | | | | |
| d)... Rwy' wedi defnyddio'r hyn rwy' wedi'i ddysgu drwy ddefnyddio'r llyfrgell. | | | | | |

e) Os mai 'cytuno' neu 'cytuno'n gryf' oedd eich ateb i gwestiwn d, rhowch wybod i ni sut rydych wedi defnyddio'r hyn rydych wedi'i ddysgu.

4. Drwy ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell [enw'r awdurdod lleol]...

| | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| a)... Rwy'n fwy ymwybodol o gymorth ac adnoddau sy'n gallu helpu i ofalu am fy lles i neu les fy nheulu. | | | | | |
| b)... Rwy'n gallu cymryd gwell gofal o'm lles i neu les fy nheulu. | | | | | |
| c)... Rwy'n deall fy iechyd a'm lles fy hun yn well. | | | | | |
| d)... Rwy' wedi newid o leiaf un peth i wella fy lles corfforol neu feddyliol. | | | | | |

e) Os mai 'cytuno' neu 'cytuno'n gryf' oedd eich ateb i gwestiwn d, ac os ydych yn fodlon gwneud, disgrifiwch pa agweddau ar eich iechyd corfforol neu feddyliol rydych chi wedi'u newid.

**Arolwg plant**

Bydden ni'n hoffi gwybod beth yw dy farn di am y llyfrgell. Cei di benderfynu wyt ti eisiau cymryd rhan yn yr arolwg yma neu beidio. Efallai y byddwn ni'n defnyddio dy atebion mewn adroddiadau am y llyfrgell, ond byddwn yn gwneud yn siŵr bod neb yn cael gwybod pwy wyt ti.

1. Mae mynd i'r llyfrgell yn helpu fi i gwrdd â phobl newydd neu wneud ffrindiau.

   Dwi'n cytuno llawer / Dwi'n cytuno tipyn bach / Dwi ddim yn cytuno / Dwi ddim yn siŵr

2. Mae mynd i'r llyfrgell yn helpu fi i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel grwpiau darllen, amser stori, cerddoriaeth, celf neu weithgareddau Cymraeg.

   Dwi'n cytuno llawer / Dwi'n cytuno tipyn bach / Dwi ddim yn cytuno / Dwi ddim yn siŵr

3. Mae mynd i'r llyfrgell yn helpu fi i ddysgu pethau newydd.

   Dwi'n cytuno llawer / Dwi'n cytuno tipyn bach / Dwi ddim yn cytuno / Dwi ddim yn siŵr

4. Pan dwi'n mynd i'r llyfrgell, fel arfer dwi'n teimlo...

Yn ofnus Yn hapus Yn hyderus Wedi blino

Yn gyffrous Yn siriol Yn drist

Yn dawel Yn ddiogel Yn grac Yn ddiflas

Yn ymlaciedig Yn ddryslyd Yn nerfus

Rho gylch o amgylch **pob** gair sy'n disgrifio sut rwyt ti'n teimlo pan fyddi di'n mynd i'r llyfrgell. Cei di ychwanegu dy eiriau dy hun hefyd os wyt ti eisiau.

# Atodiad C: Canllawiau dadansoddi data

**Data meintiol**

Cam 1: Troswch atebion yn sgorau rhifyddol fel a ganlyn:

1 = Anghytuno'n gryf

2 = Anghytuno

3 = Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

4 = Cytuno

5 = Cytuno'n gryf

Cam 2: Gludwch eich data i'r tab 'data crai' ar y daenlen ddadansoddi. Os oes gennych fwy na 400 o ymatebion, rhowch fwy o resi i mewn. Caiff y cyfartaledd ar gyfer pob ateb ei gyfrifo'n awtomatig.

Cam 3: Cliciwch ar y tab 'siart'. Caiff eich diagramau effaith eu cynhyrchu'n awtomatig. Mae'n bosibl y bydd angen i chi addasu lleoliad y labeli ar eich siartiau.

**Data ansoddol**

Dylid codio ymatebion penagored o'r arolwg effaith ar gwsmeriaid (eu categoreiddio) yn ôl y fframwaith isod. Os oes llai na 105 o ymatebion i gwestiwn penagored, dylai gwasanaethau llyfrgell godio'r holl ymatebion. Os oes 105 o ymatebion neu fwy, mae'n bosibl y bydd llyfrgelloedd am samplo ymatebion ar hap os dymunant.

**Samplo**

Enghraifft: Mewn ymateb i'r cwestiwn penagored am y Gymuned, "Sut rydych chi wedi cymryd mwy o ran," mae gwasanaeth llyfrgell yn derbyn 247 o ymatebion.

1. Rhestrwch yr ymatebion mewn taenlen.
2. Cyfrifwch gan ddefnyddio'r 'bwlch samplo' fel a ganlyn:

   Cyfanswm yr ymatebion / Maint sampl isaf ddelfrydol (70)

   247 / 70 = 3.53

   Talgrynnwch hwn i fyny neu i lawr i'r cyfanrif agosaf.

   3.53 - yn rhoi bwlch samplo o 4.
3. Detholwch haprif rhwng 1 a 4.

Detholir 2 fel yr haprif.

4. Codiwch bob 4ydd ateb, gan ddechrau gyda'r haprif dethol.

Codiwch yr ymatebion ar linellau 2, 6, 10, 14, 18, 22, ac ati ar y daenlen.

**Codio**

Mae'r fframwaith isod yn nodi'r codau neu'r tagiau ar gyfer pob un o gwestiynau penagored yr arolwg. I godio'r ymatebion, dylech benderfynu pa gategori sydd orau ar gyfer pob datganiad. Mae'n anochel y bydd ymatebion nad ydynt yn disgyn yn hawdd i un categori. Yn yr achosion hyn, gallwch ddewis cynnwys yr ymateb mewn mwy nag un categori os dymunwch.

**Cymuned: Sut rydych chi wedi cymryd mwy o ran?**

- Mynychu grŵp/grwpiau yn y llyfrgell
- Mynychu grŵp/grwpiau y tu hwnt i'r llyfrgell
- Rhan anffurfiol (e.e. gwneud ffrindiau)
- Gwirfoddoli yn y llyfrgell
- Gwirfoddoli y tu hwnt i'r llyfrgell
- Mathau eraill o ymgysylltiad dinesig neu ran gymunedol (e.e. trefnu cymunedol, ymgyrchu)

**Diwylliant: Ym mha weithgareddau rydych chi wedi cymryd rhan?**

- Darllen
- Adrodd storïau
- Ysgrifennu
- Celf weledol
- Cerddoriaeth/canu
- Theatr/ffilm
- Treftadaeth a Diwylliant: Y Gymraeg
- Treftadaeth a Diwylliant: Arall
- Arall

**Dysgu: Esboniwch sut rydych wedi defnyddio'r hyn rydych wedi'i ddysgu.**

- Cefnogi addysg ffurfiol
- Cefnogi aelod o'r teulu neu ffrind
- Rhoi sgìl ar waith

- Cefnogi cyflogaeth/gyrfa
- Ymgysylltiad dinesig
- Hunan-ddatblygiad/lles
- Arall

**Lles: Os ydych yn fodlon gwneud, disgrifiwch pa agweddau ar eich iechyd corfforol neu feddyliol rydych chi wedi'u newid.**

- Rheoli pryder/gorbryder/iselder ysbryd
- Brwydro unigrwydd
- Rheoli agwedd arall ar iechyd meddwl
- Rheoli cyflwr iechyd corfforol
- Cynnal ffordd iach o fyw: Bwyta'n iach
- Cynnal ffordd iach o fyw: Ymarfer corff
- Cynnal ffordd iach o fyw: Arall
- Arall

Mae nifer o ffyrdd y gallwch ddefnyddio'r ymatebion penagored i'r arolwg.

**Opsiwn 1: Codio'n rhydd**

Dewiswch liw i amlygu pob cod neu gategori. Amlygwch bob ymateb i ddangos y cod sy'n cyd-fynd orau ar gyfer y datganiad hwnnw. (e.e. Ar gyfer ymatebion i'r cwestiwn Diwylliant, oren=darllen; melyn=adrodd storïau; gwyrdd=ysgrifennu ac ati). Gallwch wneud y broses hon ar bapur, neu drwy amlygu'r ymatebion mewn dogfen Word.

**Opsiwn 2: Meddalwedd codio ffynhonnell agored**

Mae Taguette yn declyn tagio dogfennau ffynhonnell agored. Gallwch ei ddefnyddio fel ap neu ei lawrlwytho i'ch cyfrifiadur eich hun. Am fanylion pellach, darllenwch y canllaw Getting Started. Mae gwasanaethau llyfrgell yn derbyn 'llyfr codio' fel ffeil csv. Unwaith i chi sefydlu prosiect, gallwch ddilyn 'import codebook' ar y tab 'Project Info' i osod y codau (sef 'Highlights' in Taguette). Yna, mae angen i chi roi'ch ymatebion i mewn drwy glicio ar 'add a document' o dan y tab 'Documents'. Os ydych chi'n defnyddio ap Taguette i ddadansoddi eich data, sicrhewch eich bod wedi anonymeiddio'r ymatebion cyn eu lanlwytho, er enghraifft, dileu enwau, lleoliadau neu deitlau swyddi a allai ddatgelu pwy yw unigolyn.

**Opsiwn 3: Codio DA**

Mae ystod o becynnau DA (deallusrwydd artiffisial) ar gael a gellir datblygu prociadau codio ar eu cyfer ar sail y categorïau yn y fframwaith codio. Bydd prociadau addas yn amrywio yn dibynnu ar y pecyn DA a ddefnyddir.

# Atodiad D: Mapio yn erbyn blaenoriaethau strategol

Noder: Nid rhestr gyflawn yw hon, ond yn hytrach mae'n amlygu'r blaenoriaethau hynny sy'n debygol o fod wedi'u cysylltu'n agosaf â themâu effaith llyfrgell.

| **Strategaeth** | **Cryfhau ein cymunedau**<br><br>Mae llyfrgelloedd yn meithrin ymdeimlad o berthyn ac yn cefnogi cysylltiadau cymdeithasol a chydlyniant o fewn cymunedau ac ar draws cymunedau | **Dathlu diwylliant**<br><br>Mae llyfrgelloedd yn annog cyfranogiad yn llenyddiaeth, treftadaeth ddiwylliannol a diwylliant cyfoes Cymru, gan gynnwys iaith Gymru sy'n ffynnu | **Hyrwyddo dysgu**<br><br>Mae llyfrgelloedd yn ysbrydoli ymgysylltiad mewn dysgu drwy gydol bywyd, gan gynnwys datblygu sgiliau llythrennedd, creadigrwydd a digidol, a hyder | **Lles**<br><br>Mae llyfrgelloedd yn cefnogi lles unigol a chymunedol, gan helpu i wneud cymru'n lle mwy cyfartal ac iach i fyw |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant** | 1. Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol.<br><br>3. Mae diwylliant wedi'i wreiddio mewn creu lleoedd.<br><br>4. Mae diwylliant yn adlewyrchu anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc, ac yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cenedlaethau. | 2. Mae democratiaeth ddiwylliannol a hawliau diwylliannol yn ganolog i ddiwylliant yng Nghymru.<br><br>6. Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn adlewyrchu Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlieithog.<br><br>7. Mae gan ddiwylliant broffil uchel yn y ffordd y caiff Cymru ei marchnata | 10. Mae ein casgliadau a'n hasedau hanesyddol yn derbyn gofal, ac maent yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu, creadigrwydd, creu lleoedd a llesiant diwylliannol. | 5. Mae cymryd rhan mewn diwylliant yn cefnogi llesiant unigolion a chymunedau.<br><br>10. Mae ein casgliadau a'n hasedau hanesyddol yn derbyn gofal, ac maent yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu, creadigrwydd, creu lleoedd a llesiant diwylliannol. |

| Strategaeth | Cryfhau ein cymunedau | Dathlu diwylliant | Hyrwyddo dysgu | Gwella Lles |
|---|---|---|---|---|
| **Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant (parhad)** | 10. Mae ein casgliadau a'n hasedau hanesyddol yn derbyn gofal, ac maent yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu, creadigrwydd, creu lleoedd a llesiant diwylliannol. | i ymwelwyr a sut rydym yn sefydlu ac yn datblygu cysylltiadau rhyngwladol.<br><br>8. Codir proffil diwylliant drwy ddathlu a hyrwyddo diwylliant ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.<br><br>12. Bydd cyrff diwylliant a threftadaeth yn cydweithio i fanteisio i'r eithaf ar botensial llawn timau a chasgliadau arbenigol, gan weithio gydag eraill i ystyried pŵer diwylliant a manteisio arno.<br><br>13. Mae arferion digidol da yn cefnogi ac yn gwella diwylliant.<br><br>15. Mae'r sector diwylliant yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli, gyda gweithlu proffesiynol a medrus. | | |

| Strategaeth | Cryfhau ein cymunedau | Dathlu diwylliant | Hyrwyddo dysgu | Gwella Lles |
|---|---|---|---|---|
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | **Cymunedau Cydlynus**: cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.<br><br>**Mwy Cyfartal:** cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | **Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu:** cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | **Cymru Lewyrchus:** cymdeithas sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig. | **Mwy Cyfartal:** cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau.<br><br>**Iachach:** cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| **Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio** | **Nod 3: Meithrin a chynnal galluogrwydd pobl:** cyfranogiad cymunedol (ynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd; Gwella mynediad at fannau cyfarfod a'u hargaeledd; Annog cysylltiad sy'n pontio'r cenedlaethau). | | **Nod 3: Meithrin a chynnal galluogrwydd pobl:** dysgu gydol oes (Cyflwyno hawl newydd i ddysgu gydol oes; Cefnogi dysgu anffurfiol; Hyrwyddo hyder digidol). | |

| Strategaeth | Cryfhau ein cymunedau | Dathlu diwylliant | Hyrwyddo dysgu | Gwella Lles |
|---|---|---|---|---|
| **Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | | | | **Gwasanaethau di-dor, sy'n cael eu darparu mor agos â phosibl at y cartref.**<br><br>**Bywydau Hirach, iachach a Hapusach:** rhaid i bobl gymryd mwy o gyfrifoldeb, nid yn unig dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ond hefyd dros eu teuluoedd a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, efallai hyd yn oed eu ffrindiau a'u cymdogion.<br><br>**System gyfan iechyd a gofal cymdeithasol:** system 'iachusrwydd' sy'n ceisio cefnogi a rhagweld anghenion iechyd, atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael. |

| Strategaeth | Cryfhau ein cymunedau | Dathlu diwylliant | Hyrwyddo dysgu | Gwella Lles |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol** | Rhoi arferion gwrth-hiliol ar waith, hwyluso mynediad a chanlyniadau cydradd, a chynyddu lefelau cyfranogiad ymhlith pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i'r eithaf.<br><br>Cyflwyno'r naratif hanesyddol priodol, gan hyrwyddo a chyflwyno disgrifiad cytbwys, dilys ac wedi'i ddatrefedigaethu o'r gorffennol - disgrifiad sy'n cydnabod anghyfiawnderau hanesyddol ac effaith gadarnhaol cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. | Helpu pob rhan o gymdeithas yng Nghymru i groesawu a dathlu ei threftadaeth ddiwylliannol amrywiol, gan ddeall a chydnabod yr hawl i ryddid mynegiant diwylliannol. | Cynnig cyfleoedd addysg a dysgu gwrth-hiliol, gan gynnwys deunyddiau dehongli, marchnata ac addysgol sy'n cydnabod ac yn dathlu cymysgedd diwylliannol cyfoethog ac amrywiol ein cymdeithas, yn annog ymgysylltiad corfforol a deallusol eang ac yn hyrwyddo arferion ac egwyddorion gwrth-hiliol drwyddi draw. | |
| **Cymraeg 2050** | **3. Creu amodau ffafriol:** Cymuned a'r economi: cefnogi seilwaith economaidd | **2. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**: mewn gweithleoedd, gwasanaethau a defnydd | **1. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**: datblygu a chynnal sgiliau Cymraeg drwy | |


| Strategaeth | Cryfhau ein cymunedau | Dathlu diwylliant | Hyrwyddo dysgu | Gwella Lles |
|---|---|---|---|---|
| **Cymraeg 2050 (parhad)** | gymdeithasol cymunedau Cymraeg. | o'r Gymraeg yn gymdeithasol.<br><br>**3. Creu amodau ffafriol:** Diwylliant a'r cyfryngau, sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o'n diwylliant cyfoes. | addysg a hyfforddiant, o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth yn y Gymraeg i oedolion. | |
| **Strategaeth Ddigidol i Gymru** | **Cenhadaeth 2: cynhwysiant digidol:** Rhoi yr ysgogiad, y mynediad y sgiliau a'r hyder i bobl ymgysylltu gyda byd sy'n fwyfwy digidol, yn seiliedig ar eu hanghenion. | | **Cenhadaeth 2: cynhwysiant digidol** (Rhoi yr ysgogiad, y mynediad y sgiliau a'r hyder i bobl ymgysylltu gyda byd sy'n fwyfwy digidol, yn seiliedig ar eu hanghenion).<br><br>**Cenhadaeth 3: sgiliau digidol** (Creu gweithlu sydd â'r sgiliau digidol, y gallu a'r hyder i ragori yn y gweithle ac ym mywyd pob dydd). | |

| Strategaeth | Cryfhau ein cymunedau | Dathlu diwylliant | Hyrwyddo dysgu | Gwella Lles |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24** | 1: Cymryd camau i leihau'r risg o wynebu tlodi, gan wella canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac sy'n byw ar aelwydydd incwm isel.<br><br>6: Byddwn yn adeiladu ar ein polisïau a'n hymyriadau presennol ac yn datblygu fframwaith monitro i fesur cynnydd tuag at gydlyniant cymunedol a meithrin cysylltiadau da. | | | |
| **Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru** | Gwneud Cymru yn lle mwy diogel; Gwneud Cymru yn Genedl Noddfa i fudwyr LHDTC+; gwella cynhwysiant a chyfranogiad ym mhob rhan o fywyd; gwrando ar ein cymunedau LHDTC+ a gweithio gyda nhw; | | Sicrhau bod addysg yng Nghymru yn gynhwysol. | Gwella canlyniadau gofal iechyd. |


| Strategaeth | Cryfhau ein cymunedau | Dathlu diwylliant | Hyrwyddo dysgu | Gwella Lles |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru (parhad)** | amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl draws ac anneuaidd. | | | |
| **Cysylltu Cymunedau** | **Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddod i gysylltiad â'i gilydd** (Hybu a Galluogi Gwirfoddoli; Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gysylltu).<br><br>**Blaenoriaeth 2: Seilwaith cymunedol sy'n cefnogi cymunedau cysylltiedig** (Manteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol i gysylltu pobl; Gwneud gwell defnydd o fannau cymunedol).<br><br>**Blaenoriaeth 3: Cymunedau cydlynus a chefnogol** (Datblygu Cymunedau Mwy Cydlynus). | **Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddod i gysylltiad â'i gilydd** (Hybu a Galluogi cysylltiadau cymdeithasol trwy ddiwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau). | **Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddod i gysylltiad â'i gilydd** (Cefnogi a galluogi cynhwysiant digidol). | **Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddod i gysylltiad â'i gilydd** (Hybu a Galluogi Gwirfoddoli; Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i gysylltu; Cynorthwyo a galluogi pobl i gysylltu trwy wasanaethau llesiant; Cynorthwyo'r rhai sydd yn y mwyaf o berygl).<br><br>**Blaenoriaeth 3: Cymunedau cydlynus a chefnogol** (System iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n cefnogi llesiant ac ymgysylltu cymunedol). |

| Strategaeth | Cryfhau ein cymunedau | Dathlu diwylliant | Hyrwyddo dysgu | Gwella Lles |
|---|---|---|---|---|
| **Cysylltu Cymunedau (parhad)** | **Blaenoriaeth 4: Meithrin Ymwybyddiaeth a Hybu Agweddau Cadarnhaol** (Cefnogi plant a phobl ifanc i sefydlu a chynnal cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon). | | | **Blaenoriaeth 4: Meithrin Ymwybyddiaeth a Hybu Agweddau Cadarnhaol** (Datblygu sgwrs genedlaethol er mwyn hybu llesiant meddyliol a chodi ymwybyddiaeth; Cefnogi plant a phobl ifanc i sefydlu a chynnal cysylltiadau cymdeithasol ystyrlon; Cefnogi iechyd meddwl da, llesiant a chadernid y boblogaeth ehangach). |


# Atodiad E: Graffig enghreifftiol o effaith gyffredinol



# Atodiad F: Ffordd arall o gyflwyno'r enghraifft o effaith gyffredinol



## Atodiad G: Graffig enghreifftiol o effaith y thema lles



# Atodiad H: Graffig enghreifftiol o effaith y thema dysgu



[i] Cysylltiad cadarnhaol cryf rhwng maint y gyllideb llyfrau a ffigurau benthyciadau (r Pearson = 0.768; p<0.001)

[ii] Cysylltiad cadarnhaol cryf rhwng benthyciadau i blant a gwariant ar lyfrau plant (r Pearson r = 0.878; p<0.001)

[iii] Cysylltiad cadarnhaol cryf rhwng gwariant ar adnoddau yn y Gymraeg a nifer y benthyciadau (r= 0.735; p<0.001)

[iv] Cysylltiad cadarnhaol cryf rhwng oriau agor a benthycwyr gweithredol (r Pearson = 0.894, p<0.001)

[v] Cysylltiad cadarnhaol rhwng e-fenthyciadau a gwariant ar e-adnoddau (r Pearson = 0.553; p<0.004)